department for
culture, media
and sport

# Adloniant wedi'i Reoleiddio

## Ymgynghoriad ar y cynnig i archwilio dadreoleiddio Adran Un y Ddeddf Drwyddedu 2003

Medi 2011

improving
the quality
of life for all

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd pawb trwy gyfrwng gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon, gan gefnogi'r ymdrech i ganlyn rhagoriaeth a chan hyrwyddo'r diwydiant twristiaeth, y diwydiant creadigol a'r diwydiant hamdden.

# Cynnwys

**Rhagair** ...4
**Pennod 1: Adloniant wedi'i Reoleiddio – cynnig i ddadreoleiddio** ...5
**Pennod 2: Y sefyllfa Bresennol, a'n cynnig manwl** ...7
**Pennod 3: Rôl rheolaethau trwyddedu** ...13
**Pennod 4: Perfformiadau Cerddoriaeth Fyw** ...21
**Pennod 5: Perfformiadau drama** ...23
**Pennod 6: Perfformiadau dawns** ...25
**Pennod 7: Dangos ffilmiau** ...26
**Pennod 8: Chwaraeon dan do** ...28
**Pennod 9: Paffio a Reslo** ...30
**Pennod 10: Cerddoriaeth wedi'i Recordio a Chyfleusterau Adloniant** ...31
**Pennod 11: Cael gwared ar unrhyw ganlyniadau anfwriadol: cyfreithiau eglur ac arweiniad eglur** ...33
**Atodiad A: Rhestr gryno o'r cwestiynau** ...35
**Atodiad B: Sut i Ymateb** ...40
**Atodiad C: Rhestr o'r Ymgyngoreion** ...41

# Rhagair

Ar hyn o bryd, mae'r gyfraith a'r rheoliadau sy'n mynnu bod rhai mathau o adloniant (ond nid pob math) yn gorfod bod yn drwyddedig, yn draed moch. Er enghraifft, bydd angen trwydded arnoch os ydych yn dymuno llwyfannu opera ond nid os ydych yn dymuno trefnu ras ceir stoc. Bydd angen i ddeuawd gwerin sy'n perfformio mewn cornel fach mewn tafarn pentref sicrhau caniatâd, ond ni fydd angen i dafarndai tebyg i ysguboriau mewn canol dinasoedd sicrhau caniatâd er mwyn dangos gemau pêl-droed ar sgrin fawr. Bydd angen i ddigwyddiad athletau sicrhau trwydded os yw'n ddigwyddiad dan do, ond nid os yw'n ddigwyddiad a gynhelir yn yr awyr agored. Nid oes angen trwydded ar gyngerdd ysgol am ddim i rieni, ond os byddai'r ysgol yn penderfynu codi arian ar gyfer y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon trwy godi tâl mynediad bach, neu os byddai croeso i aelodau ehangach y cyhoedd fynychu, byddai angen sicrhau trwydded. Yn gyffredinol, bydd angen caniatâd ar syrcas teithiol ond ni fydd angen caniatâd ar ffair deithiol. Ni fydd angen trwydded ar gyfer cyngerdd carolau mewn Eglwys, ond os cynhelir y cyngerdd yn Neuadd yr Eglwys, bydd angen sicrhau trwydded. Ceir nifer o enghreifftiau eraill, lle y caiff mathau o adloniant eu trin yn wahanol heb fod unrhyw sail dda dros wneud hynny – mae'r gwahaniaethau yn anghyson, yn afresymegol ac yn anwadal.

Ond maent yn achosi problemau eraill hefyd. Pryd bynnag y byddwn yn gorfodi grwpiau cymunedol i sicrhau trwydded er mwyn cynnal adloniant megis disgo er mwyn codi arian, drama amatur neu noson ffilmiau, bydd y baich biwrocrataidd yn llethu eu hegni a'u hamser, a bydd y ffioedd ymgeisio yn costio hefyd. I bob pwrpas, rydym yn pennu cost feichus sy'n ymatal gwaith y sector gwirfoddol a chymunedol, ac sy'n llyffetheirio cymdeithas yn gyffredinol hefyd.

Mae'r undebau cerddorion amrywiol ac undebau perfformwyr eraill yn hynod o bryderus ynghylch y ffaith bod yr holl rwystrau hyn yn lleihau'r cwmpas i dalent newydd gychwyn ar eu taith, gan fod lleoliadau bach yn ei chael hi'n anos i aros ar agor gyda'r holl fiwrocratiaeth ychwanegol, ac mae hon yn ystyriaeth yr un mor bwysig. Yn ogystal, ceir tystiolaeth bod tafarndai a benderfynodd arallgyfeirio trwy gynnig gweithgareddau ac eithrio yfed, mewn sefyllfa well i oroesi'r dirwasgiad. Felly, gallai hwyluso'r trefniadau er mwyn eu galluogi i gynnig adloniant gynnig ffynhonnell bwysig o incwm newydd i fusnesau sy'n wynebu trafferthion, megis tafarndai, bwytai a gwestai.

Ac i gloi, mae cyfreithiau sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Llywodraeth ar gyfer ystod mor eang o ddigwyddiadau cyhoeddus yn rhoi tolc bach, ond arwyddocaol, yn ein creadigrwydd a'n mynegiant cymunedol. Os nad oes unrhyw reswm da dros eu hatal, dylem gymryd y dylid eu caniatáu.

Felly mae hwn yn gyfle euraid i ddadreoleiddio, i leihau beichiau biwrocrataidd, i leihau costau, i roi hwb i'r gymdeithas fawr ac i roi help llaw i ryddid barn. Yn syml, byddai'n cynnig ni yn gwaredu'r angen am drwydded ar gyfer cymaint o fathau o adloniant ag y bo modd. Hoffwn eich annog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, er mwyn i ni allu unioni'r cydbwysedd.

**John Penrose**
Gweinidog dros Dwristiaeth a Threftadaeth

# Pennod 1: Adloniant wedi'i Reoleiddio – cynnig i ddadreoleiddio

## Cyflwyniad

1.1. Mae’r ymgynghoriad yn ceisio barnau ar gynnig i gael gwared ar ofynion trwyddedu yng Nghymru a Lloegr i’r rhan fwyaf o weithgareddau sydd wedi eu diffinio fel adloniant wedi’i reoleiddio" yn Atodlen Un i’r Ddeddf Drwydded 2003 ar hyn o bryd.

1.2. Cyflwynwyd naw cyfundrefn ar wahân a oedd yn gysylltiedig â thrwyddedu yn Neddf Trwyddedu 2003, a oedd yn ymwneud gyda chyflenwi a gwerthu alcohol, lluniaeth gyda'r hwyr, ac “adloniant wedi'i reoleiddio”. Wrth wneud hyn, roedd y Ddeddf yn moderneiddio nifer o gyfreithiau hynafedig, nad oedd modd iddynt ystyried newidiadau technolegol a ffyrdd o fyw modern.

1.3. Roedd Deddf Trwyddedu 2003 yn newid y ffordd yr oedd gweithdrefnau trwyddedu yn gweithio. Heb os nac oni bai, roedd cael un drwydded a fyddai'n caniatáu gweithgareddau trwyddedadwy lluosog yn gam mawr ymlaen i nifer, yr oedd gofyn iddynt baratoi ceisiadau ar wahân am drwyddedau yn flaenorol, a oedd yn gostus ac yn llyncu llawer o amser. Yn hyn o beth, bu Deddf 2003 yn llwyddiannus. Mewn ffyrdd eraill, mae wedi bod yn llai llwyddiannus. Ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn deddfu trwy gyfrwng y Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol er mwyn ailosod cydbwysedd trwyddedu alcohol o blaid cymunedau lleol, er enghraifft.

1.4. Yn ogystal, er gwaethaf dull gweithredu radical tuag at drwyddedu alcohol, ni lwyddodd Deddf 2003 i gyflawni ei huchelgais. Mae'r weithdrefn ar gyfer “adloniant wedi'i reoleiddio” wedi colli cyfle go iawn i alluogi gweithgareddau adloniant, gan efelychu hen weithdrefnau trwyddedu neu fabwysiadu ymagwedd newydd a gorofalus yn lle hynny. Roedd hyn yn arbennig o amlwg pan welwyd y cam o waredu rheol “dau mewn bar”, a oedd yn caniatáu dau gerddor i berfformio mewn tafarn yn flaenorol, heb yr angen i sicrhau trwydded adloniant benodol. Ond yn hytrach na moderneiddio hen gyfraith a oedd wedi dyddio erbyn hyn, roedd posibilrwydd y byddai Ddeddf 2003 yn troseddoli difyrrwch diwylliannol diniwed.

1.5. Yn wir, creodd y broses o dacluso'r prosesau gweinyddol broblemau newydd i nifer o bobl eraill. Mae'r Llywodraeth wedi cael cyflwyniadau di-rif ynghylch y trafferthion y mae ystod eang o sefydliadau masnachol a sefydliadau yn y sector gwirfoddol a diwylliannol wedi'u cael oherwydd Deddf 2003. I nifer, roedd y gofynion trwyddedu newydd dan Ddeddf 2003 yn gam yn ôl, gan gyflwyno prosesau costus a biwrocrataidd ar gyfer digwyddiadau risg isel neu ddigwyddiadau nad oeddent yn cynnwys unrhyw risg o gwbl, gan gynnwys:

- Digwyddiadau preifat lle codir tâl er mwyn codi arian ar gyfer elusen;
- Dramâu a chynyrchiadau ysgol;
- Perfformiadau Pwnsh a Jwdi;
- Syrcasau teithiol;
- Ffilmiau plant a ddangosir ar gyfer grwpiau o blant bach;

- Perfformiadau cerddorol i gleifion mewn ysbytai;
- Bandiau pres yn chwarae yn y parc lleol;
- Disgos ysgol, lle codir pris am docyn er mwyn cefnogi'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon;
- Arddangosiadau dawnsio gan ddisgyblion mewn ffeiriau ysgol;
- Storïwyr mewn gwisgoedd;
- Deuawdau gwerin mewn tafarndai;
- Pianyddion mewn bwytai;
- Sioeau consuriwyr;
- Perfformiadau gan artistiaid stryd;
- A pherfformiadau gan bedwarawdau canu harmoni clos ger y cei hyd yn oed.

1.6 Cyn yr Etholiad Cyffredinol, roedd dwy blaid y Glymblaid yn cydnabod yr angen i ddiwygio'r sefyllfa, ac yn Rhaglen Llywodraethu y Glymblaid, gwnaethom ymrwymiad cadarn i waredu'r fiwrocratiaeth sy'n effeithio ar gerddoriaeth fyw mewn lleoliadau bach. Yna, fel rhan o'r Adolygiad Twf a gyhoeddwyd gyda'r Gyllideb eleni, cyhoeddwyd y byddem yn archwilio “adloniant wedi'i reoleiddio”, gyda'r nod o waredu rheoleiddio trwyddedu sy'n cyfyngu’n ddiangen ar greadigrwydd neu ar gyfranogiad mewn digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon. Ffrwyth y gwaith hwnnw yw'r ymgynghoriad hwn.

1.7 Dros y penodau nesaf, byddwn yn archwilio'r gweithgareddau adloniant sy'n cael eu rheoleiddio gan Ddeddf Trwyddedu 2003, gan ofyn am farnau ar y cwestiwn allweddol: “beth fyddai'n digwydd os na fyddai'r gweithgaredd hwn yn weithgaredd trwyddedadwy mwyach?”

1.8 Mewn sawl maes, mae trafodaethau cynnar gyda rhanddeiliaid wedi dynodi y byddai dadreoleiddio yn cael ei groesawu, ac y byddai'n broses syml. Gyda mathau eraill o weithgaredd trwyddedadwy fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai rhai anawsterau anorfod godi. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r mannau lle y bydd angen gwneud trefniadau diogelu penodol yn ein barn ni, ac yn wir, lle na fyddai dadreoleiddio llawn yn bosibl o gwbl efallai.

1.9 Mae'r ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar y ffaith ein bod o'r farn bod cwmpas digonol i ddadreoleiddio'r rhan fwyaf o Atodlen Un Deddf 2003 mewn ffordd synhwyrol, ond nid yr Atodlen yn gyfan gwbl. Gallai cael gwared ar yr angen am drwyddedu rhagweithiol i adloniant wedi'i reoleiddio gynnig hwb go iawn i fudiadau cymunedol, elusennau, sefydliadau diwylliannol a chwaraeon, artistiaid a pherfformwyr, lleoliadau adloniant a'r sefydliadau lleol hynny sydd wrth wraidd pob cymuned, megis cymdeithasau rhieni/athrawon, ysgolion ac ysbytai.

1.10 Fodd bynnag, bydd angen i ni ofyn am dystiolaeth yn yr ymgynghoriad hwn, a'i harchwilio, er mwyn gallu gwerthuso'r cynigion yn llawn ac er mwyn sicrhau bod gennym ddarlun cyflawn o unrhyw effeithiau neu fanteision posibl er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

# Pennod 2: Y sefyllfa Bresennol, a'n cynnig manwl

## Y sefyllfa bresennol – cefndir

2. Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn dosbarthu'r gweithgareddau canlynol fel "adloniant wedi'i reoleiddio", felly maent yn weithgareddau trwyddedadwy:

- perfformiad drama,
- dangos ffilm,
- digwyddiad chwaraeon dan do,
- adloniant paffio neu reslo (dan do ac yn yr awyr agored),
- perfformiad cerddoriaeth fyw,
- chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio, a
- perfformiad dawns

2.1. Yn ogystal, ceir gofyniad trwyddedu sy'n ymwneud â darparu cyfleusterau adloniant (sy'n gyffredinol yn golygu darparu cyfleusterau sy'n galluogi'r cyhoedd i greu cerddoriaeth neu ddawns).

2.2. Yr unig ffordd y bydd modd cynnal gweithgareddau trwyddedadwy yw trwy sicrhau caniatâd trwydded[1] neu Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (TEN) gan awdurdod trwyddedu lleol. Bydd gofyn sicrhau trwydded (neu TEN) ar gyfer unrhyw rai o'r gweithgareddau a restrir uchod (yn unol â'r eithriadau cyfyngedig a nodir yn rhan 2 Atodlen 1), os ydynt yn ddigwyddiadau lle mae modd i'r cyhoedd eu mynychu yn rhad ac am ddim neu os ydynt yn ddigwyddiadau cyhoeddus neu breifat lle codir tâl mynediad gyda'r bwriad o wneud elw – hyd yn oed os bydd yr arian a godir yn cael ei roi i elusen.

2.3. Yn aml, bydd ceisiadau am drwyddedau i gynnal adloniant wedi'i reoleiddio yn digwydd fel rhan o gais am drwydded alcohol, yn enwedig mewn lleoliadau megis tafarndai, clybiau a gwestai, ond ceir nifer o leoliadau hefyd sy'n "lleoliadau adloniant" yn fwy na dim, sy'n rhedeg bar, megis theatrau, y bydd dal gofyn iddynt sicrhau caniatâd trwydded alcohol er mwyn gwneud hynny.

## Pwerau trwyddedu a graddfa genedlaethol

2.4. Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn cynnwys pedwar amcan trwyddedu sylfaenol: Atal Trosedd ac Anrhefn; Atal Niwsans Cyhoeddus; Diogelu Plant rhag Niwed; a Diogelwch y Cyhoedd. Rhaid i awdurdodau trwyddedu gyflawni eu swyddogaethau, gan wneud eu

[1] Yn yr ymgynghoriad hwn, er mwyn hwyluso'r darllen, mae "trwydded" yn cyfeirio at Drwydded Safle neu Dystysgrif Safle Clwb.

penderfyniadau mewn ffordd sy'n hyrwyddo'r amcanion hyn.

2.5. Gan gynorthwyo'r pedwar amcan hwn, mae modd i drwyddedau fod yn rhwym i amodau helaeth. Mae modd gosod yr amodau hyn ar drwydded ar yr adeg pan fydd y drwydded yn cael ei rhoi – y bydd yr ymgeisydd yn gwirfoddoli i'w cyflawni neu a orfodir gan yr awdurdod trwyddedu fel rhan o gais i amrywio trwydded, neu a orfodir fel rhan o Adolygiad trwydded. Mae amodau yn chwarae rôl bwysig wrth sicrhau “contract” rhwng awdurdod trwyddedu a thrwyddedai, ac yn chwarae rôl bwysig wrth osod y cyd-destun ar gyfer sut y bydd y safle trwyddedig yn gweithredu.

2.6. Yn yr un modd, mae Adolygiadau trwydded yn cyflawni rôl bwysig ym mhroses y rheolaethau. Mae adolygiadau yn rhoi pwerau i awdurdodau perthnasol i roi sylw i broblemau, gan sicrhau cynrychiolaeth leol briodol yn y prosesau penderfynu. Mae modd i gwynion gan fusnesau neu breswylwyr lleol ysgogi adolygiadau, neu gyflwyniadau a wneir gan awdurdodau perthnasol, fel yr heddlu. I drwyddedai, mae adolygiad trwydded yn fater difrifol iawn, ac fe allai methiant i gydymffurfio gyda'r gyfraith arwain at gau safle, dirwy drom iawn, ac efallai dedfryd o garchar hyd yn oed.

2.7. O ran graddfa, mae 133,000 o safleoedd yng Nghymru a Lloegr wedi'u trwyddedu ar gyfer adloniant wedi'i reoleiddio ar hyn o bryd, ac mae bron i bob un o'r safleoedd hyn wedi'u trwyddedu i werthu alcohol. Yn ogystal, awdurdodir dros 120,000 o Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro bob blwyddyn. Mae modd defnyddio hysbysiadau TEN fel dewis amgen i drwydded lawnach, fel caniatâd “unigol” ar gyfer digwyddiad trwyddedadwy, ac maent yn costio £21 fesul cais.

2.8. Mae gan drefnwr digwyddiadau’r hawl i gael hyd at bump TEN mewn blwyddyn, oni bai eu bod yn meddu ar drwydded bersonol i werthu neu gyflenwi alcohol hefyd, ac os ydynt, caiff y cyfyngiad ei ymestyn i 12 TEN y flwyddyn yn yr un safle, neu hyd at 50 o ddigwyddiadau mewn gwahanol leoedd.

## Y cynnig hwn

2.9. Man cychwyn yr ymgynghoriad hwn yw archwilio'r angen am weithdrefn drwyddedu ar gyfer pob un o'r gweithgareddau a ddosbarthir fel “adloniant wedi'i reoleiddio”. Pan na cheir angen o'r fath, rydym yn cynnig y dylid gwaredu'r gofyniad trwyddedu, yn unol â'r safbwyntiau a'r dystiolaeth a fydd yn cael eu sicrhau trwy gyfrwng yr ymgynghoriad hwn.

2.10. Pan welir angen go iawn i drwyddedu math o adloniant, yna mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig y byddai'r gofyniad trwyddedu yn parhau, naill ai'n llawn, neu'n rhannol os byddai hynny'n fwy priodol. Mewn achosion o'r fath, mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio nodi union natur y niwed posibl, gan geisio tystiolaeth er mwyn nodi datrysiadau effeithiol a chymesur.

2.11. Bydd Pennod 3 yr ymgynghoriad hwn yn rhoi sylw i'r materion cyffredinol sy’n berthnasol i fwy nag un math o adloniant wedi'i reoleiddio. Er enghraifft, mae gennym ddiddordeb mewn clywed barnau ar y modd y delir â threfniadau iechyd a diogelwch ac ynghylch atal diflastod sŵn, yn ogystal â safbwyntiau o safbwynt diogelwch y cyhoedd a throsedd ac anrhefn. Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn nifer o gwestiynau y byddant yn ymwneud gyda'r agweddau hyn, gan ofyn cwestiwn terfynol lle bydd modd ychwanegu unrhyw sylwadau pellach ynghylch unrhyw faterion o bwys.

2.12. Yna, bydd Penodau 4-11 yn archwilio pob gweithgarwch yn Atodlen Un Deddf Trwyddedu 2003, gan ymchwilio i faterion penodol y maent yn ymwneud gyda'r gweithgarwch hwnnw.

2.13. Er y bydd Pennod 3 a Phenodau 4-11 yn gofyn cwestiynau ynghylch egwyddorion dadreoleiddio, **hoffai'r ymgynghoriad hwn nodi'n eglur o'r cychwyn cyntaf ei bod yn fwriad gan y Llywodraeth, mewn <u>unrhyw</u> achos, <u>gadw'r</u> gofynion trwyddedu ar gyfer:**

- Unrhyw berfformiad cerddoriaeth fyw, theatr, dawns, cerddoriaeth wedi'i recordio, chwaraeon dan do neu arddangosiadau ffilm pan fo'r gynulleidfa <u>yn cynnwys 5,000 o bobl neu fwy.</u>

- Paffio a Reslo.

- Unrhyw berfformiad dawns y byddai modd ei ddosbarthu fel adloniant rhywiol, ond y mae wedi'i eithrio o reoliadau lleoliadau adloniant rhywiol ar wahân.

Mae modd gweld rhagor o fanylion ym Mhenodau 4-11 ynghylch sut y byddem yn sicrhau bod y rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu.

## Y camau nesaf a'r fethodoleg

2.14. Byddwn yn coladu ac yn adolygu sylwadau o'r ymgynghoriad hwn ac yna, byddwn yn cyhoeddi ymateb gan y Llywodraeth. Pan fydd gennym safbwynt eglur bod cefnogaeth i ddadreoleiddio gweithgarwch, byddwn yn gweithio i waredu neu ddisodli'r diffiniad ar gyfer y gweithgarwch hwnnw yn Atodiad Un cyn gynted ag y bo modd, gan ddefnyddio pwerau sy'n bodoli eisoes yn Neddf 2003 er mwyn gwneud hynny pan fo modd.

2.15. Pan fyddai newidiadau yn gofyn am eithriadau newydd neu ddarpariaethau newydd o fewn Deddf Trwyddedu 2003, neu ddiwygiad i unrhyw ddeddfwriaeth arall, byddwn yn asesu dewisiadau deddfwriaethol ac o ran anghenion yn dilyn y dadansoddiad o'r ymgynghoriad, gan nodi'r blaengynllun yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.

## Pwy yw'r sawl y bydd ganddynt ddiddordeb yn y cynnig hwn?

2.16. Ceir ystod eang o bartïon y mae ganddynt ddiddordeb ym mhob agwedd ar adloniant wedi'i reoleiddio. Mewn rhai achosion, bydd gan grwpiau o randdeiliaid ddiddordeb mewn mwy nag un o'r gweithgareddau adloniant wedi'i reoleiddio. Bydd rhai o'r rhain yn cynnwys:

- Grwpiau diwylliannol amatur a phroffesiynol bach a chanolig y maent yn bodoli eisoes, megis canolfannau celfyddydau, grwpiau theatr, grwpiau dawns.
- Sinemâu prif ffrwd ac annibynnol, clybiau ffilm
- Cerddorion – amatur a phroffesiynol
- Actorion, perfformwyr
- Darparwyr ac ymarferwyr diwylliannol lleol, a threfnwyr digwyddiadau
- Elusennau, Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon, Ysgolion
- Cynulleidfaoedd cymunedol yr holl ffurfiau celf sy'n cael eu rheoleiddio gan Ddeddf 2003
- Preswylwyr a chynrychiolwyr cymunedol
- Safleoedd trwyddedig, megis clybiau a thafarndai, gwestai a lleoedd gwely a brecwast
- Safleoedd didrwydded megis siopau coffi, cabanau sgowtiaid, neuaddau eglwys, siopau recordiau, ysgolion ac ysbytai, ymhlith eraill

- Y diwydiant cerddoriaeth
- Sefydliadau diwylliannol mwy, a rhanddeiliaid ym maes datblygiad diwylliannol
- Y rhai y maent yn ymwneud gyda gweithgarwch adfywio lleol
- Sefydliadau diwylliannol a chreadigol eraill, megis cwmnïau dawns a theatr, cyrff chwaraeon y byddai modd iddynt gael mwy o sylw yn eu math o chwaraeon trwy gael mwy o gyfleoedd, a fyddai'n gallu arwain at lefelau cyfranogi uwch
- Sefydliadau datblygu diwylliannol a chwaraeon
- Awdurdodau trwyddedu, swyddogion sŵn, swyddogion iechyd a diogelwch
- Yr heddlu, y gwasanaeth tân a swyddogion safonau masnach, ac eraill y mae ganddynt ddiddordeb mewn diogelwch y cyhoedd a throsedd ac anrhefn.

## Effeithiau a manteision

2.17. Lluniwyd Asesiad Effaith cychwynnol ar gyfer y cynigion hyn. Pryd bynnag y bo modd, mae'r Asesiad hwn yn nodi manylion manteision ac effeithiau'r cynigion hyn, ac mae wedi cael ei archwilio gan y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio annibynnol. Mae modd gweld yr Asesiad Effaith cychwynnol ar-lein trwy droi at www.culture.gov.uk ac mae modd cael copi papur ohono gan DCMS o'r cyfeiriad a nodir yn atodiad A.

2.18. Statws dros dro sydd gan yr Asesiad Effaith cychwynnol, a bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn dylanwadu arno. Byddwn yn gwneud gwaith pellach er mwyn meintoli costau canlyniadol, manteision a beichiau'r cynnig canolog i ddadreoleiddio lleoliadau adloniant sy'n cynnwys 4999 o bobl neu lai ar yr heddlu, awdurdodau trwyddedu ac eraill. Mae nifer o'r gweithgareddau a ddosbarthir fel adloniant wedi'i reoleiddio yn ddigwyddiadau lleol bach ac o'r herwydd, mae'r broses o gasglu data cenedlaethol yn broses anghymesur o ddrud ar hyn o bryd.

2.19. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae dadansoddwyr y Llywodraeth wedi ffurfio tybiaethau yn dilyn allosodiadau amrywiol o'r data sydd ar gael, ond yn yr ymgynghoriad hwn, byddem yn ddiolchgar iawn am unrhyw ddata newydd a allai fod o gymorth i'n dealltwriaeth gyffredinol o'r arlliw lleol neu'r darlun ystadegol cenedlaethol.

2.20. Er enghraifft, nid oes modd rhagweld yr union weithgareddau yr ydym yn disgwyl iddynt godi os na fyddai unrhyw ofynion trwyddedu yn bodoli ynghylch adloniant wedi'i reoleiddio, felly byddem yn ddiolchgar am safbwyntiau trwy gyfrwng y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn. Yn ogystal, ni fu modd costio pob mantais bosibl (megis effaith Rhaglen Dystiolaeth Diwylliant a Chwaraeon a arweinir gan DCMS, Cyngor Celfyddydau Lloegr, English Heritage a Sport England) neu pob effaith bosibl (er enghraifft, data ynghylch costau'r prosesau cwynion sŵn dan Ddeddfau Sŵn neu Ddiogelu'r Amgylchedd) – felly unwaith eto, byddwn yn defnyddio tystiolaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad er mwyn diweddaru'r Asesiad Effaith, er mwyn sicrhau bod costau a manteision y cynigion hyn yn cael eu hadlewyrchu mor fanwl ag y bo modd cyn unrhyw ystyriaethau terfynol.

2.21. Y prif fanylyn o'r Asesiad Effaith yw y byddem yn disgwyl gweld ystod enfawr o fanteision, a chyfanswm o £43.2m y flwyddyn o ran y manteision economaidd yn ôl ein hamcangyfrifon gorau. Yn ogystal â'r fantais economaidd uniongyrchol, a'r costau a'r llafur a arbedir, disgwylir y bydd manteision sylweddol o ran lles unigol ac ar y cyd o ganlyniad i'r ffaith y bydd darpariaeth ychwanegol o adloniant a chyfranogiad ar gael, yn ogystal â manteision ychwanegol o ran rhyngweithio cymdeithasol.

2.22. Byddai'r cynnig hwn yn dwyn eglurder i gyfreithiau sy'n bodoli eisoes hefyd, gan derfynu unrhyw ansicrwydd ynghylch a fyddai angen i weithgareddau megis artistiaid stryd,

clerwyr, beirdd a charolwyr sicrhau trwydded dan Ddeddf Trwyddedu 2003, ac ym mha amgylchiadau.

**Yr effaith ar y gyfundrefn drwyddedu bresennol**

2.23. Caniateir rhyw fath o ddarpariaeth adloniant wedi'i reoleiddio ar drwydded dros 133,000 o safleoedd. Bydd manteision cael gwared ar ofynion trwyddedu yn amrywio, gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol.

2.24. Ni fyddai angen trwydded mwyach ar safleoedd y maent yn meddu ar drwydded ar hyn o bryd ar gyfer y gweithgareddau a ddosbarthwyd yn flaenorol fel adloniant wedi'i reoleiddio **yn unig** (er enghraifft, rhai neuaddau eglwys). Yn yr achosion hyn, byddai'r holl ofynion trwyddedu yn dod i ben, a byddai ffioedd ac amodau trwyddedau yn dod i ben wrth ildio trwyddedau. Byddai modd i leoliadau gynnal gweithgareddau a ddosbarthwyd yn flaenorol fel adloniant wedi'i reoleiddio, heb yr angen i sicrhau unrhyw drwydded.

2.25. Byddai safleoedd y byddent yn parhau i feddu ar drwydded ar ôl y diwygiadau (er enghraifft, ar gyfer alcohol, lluniaeth gyda'r hwyr, neu'r ffurfiau adloniant wedi'i reoleiddio sy'n weddill) yn gallu cynnal gweithgareddau adloniant a oedd yn cael eu rheoleiddio yn flaenorol, heb yr angen i fynd trwy broses Amrywiad Llawn neu Fân Amrywiad. Rydym yn cynnig y byddai'r holl amodau sy'n bodoli eisoes ar drwyddedau o'r fath yn parhau i fod yn berthnasol oni bai bod y safle yn penderfynu gwneud cais am amrywiad i'w gwaredu neu eu diwygio – sefyllfa a ddylai atal yr angen i awdurdodau trwyddedu ailgyhoeddi trwyddedau yn ddiwahân. Mae amodau yn rhan annatod o'r broses o awdurdodi trwydded, felly mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio tystiolaeth ynghylch unrhyw faterion pontio posibl, er mwyn rhoi sicrwydd digonol i'r trwyddedai ac i'r rhai sy'n monitro cydymffurfiaeth ac er mwyn sicrhau bod yr holl bartïon yn ymwybodol o'r hyn sy'n ofynnol gan safle. Gan ystyried materion o'r fath, byddai arweiniad llawn yn cael ei roi i awdurdodau trwyddedu ac i bartïon eraill y mae ganddynt ddiddordeb, cyn y byddai unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud.

2.26. Yn olaf, ar lefel leol ymarferol iawn, rhestrir o leiaf 900 o ardaloedd ar gofrestr tir cyhoeddus trwyddedig DCMS[2], y maent yn cynrychioli ardaloedd a drwyddedir gan awdurdodau lleol at ddibenion adloniant wedi'i reoleiddio yn unig – megis canol trefi, promenadau, strydoedd mawr, parciau, gerddi a meysydd hamdden. Yn ogystal, ni fyddai gofyn i awdurdodau trwyddedu brosesu a goruchwylio dros 12,500 o drwyddedau y flwyddyn mwyach, nad ydynt yn cael ffi amdanynt, megis neuaddau pentref ac ar gyfer perfformiadau penodol a gynhelir mewn ysgolion. Gyda'i gilydd, mae hyn yn cynrychioli o leiaf 13,400 o safleoedd cymunedol ac anfasnachol y flwyddyn, na fyddent yn rhwym i gyfundrefn drwyddedu mwyach.

---

[2] http://www.culture.gov.uk/what_we_do/regulated_entertainment/3196.aspx

## Effeithiau'r Cynnig: Cwestiynau

**Efallai yr hoffech ddarllen y ddogfen lawn cyn rhoi sylw – mae rhestr gyfansawdd o gwestiynau wedi ei darparu ar ddiwedd y ddogfen**

**C1: A ydych yn cytuno y bydd y cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn arwain at fwy o berfformiadau, ac y byddent er budd mudiadau gwirfoddol a chymunedol? Os ydych, a fyddech gystal ag amcangyfrif nifer ychwanegol y digwyddiadau y byddech chi neu'ch sefydliad yn eu cynnal neu y byddai eraill yn eu trefnu yn eich barn chi?**

**C2: Os ydych yn ateb fel unigolyn, a fyddai'r cynnig hwn, yn eich barn chi, yn eich helpu i gymryd rhan mewn neu i fynychu perfformiadau gwirfoddol neu gymunedol ychwanegol?**

**C3: A ydych yn cytuno gyda'n hamcangyfrifon ynghylch yr arbedion y byddai modd i fusnesau, mudiadau gwirfoddol a mudiadau elusennol eu sicrhau fel yr amlinellwyd yn yr asesiad effaith? Os nad ydych yn cytuno, amlinellwch y meysydd lle y gwelir gwahaniaeth ac unrhyw ffigurau y dylid eu hystyried yn eich barn chi (gweler paragraff 57 yr Asesiad Effaith).**

**C4: A ydych yn cytuno gyda'n hamcangyfrifon ynghylch y costau a'r arbedion posibl i awdurdodau lleol, yr heddlu ac eraill, fel yr amlinellwyd yn yr asesiad effaith? Os nad ydych yn cytuno, amlinellwch y meysydd lle y gwelir gwahaniaeth ac unrhyw ffigurau y dylid eu hystyried yn eich barn chi.**

**C5: A fyddech yn disgwyl gweld unrhyw newidiadau o ran nifer y cwynion a wneir ynghylch sŵn o ganlyniad i'r cynigion hyn? Os byddech, a fyddech gystal â chynnig tystiolaeth a rhesymeg, gan ystyried parhad rheolaethau awdurdodau trwyddedu ar gyfer safleoedd y maent yn meddu ar drwydded alcohol ac ar gyfer lluniaeth gyda'r hwyr**

**C6: Mae'r Asesiad Effaith ar gyfer y cynigion hyn yn cynnwys nifer o dybiaethau ynghylch nifer y digwyddiadau ychwanegol, a'r lefelau mynychu tebygol a fyddai'n codi os byddai'r cynigion ynghylch dadreoleiddio yn cael eu gweithredu. Os ydych yn anghytuno gyda'r tybiaethau, yn unol â pharagraffau 79 ac 80 yn yr Asesiad Effaith, a fyddech gystal â darparu amcangyfrifon o'r hyn y dylai'r ystodau cywir fod yn eich barn chi, gan esbonio sut yr amcangyfrifwyd y ffigurau hynny.**

**C7: A oes modd i chi ddarparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol er mwyn cyfrannu at yr Asesiad Effaith, yn enwedig ynghylch yr effeithiau na phennwyd gwerth ariannol ar eu cyfer?**

**C8: A oes unrhyw effeithiau nad ydynt wedi cael eu nodi yn yr Asesiad Effaith?**

**C9: A fyddai unrhyw rai o'r dewisiadau gwahanol a ystyriwyd yn yr ymgynghoriad hwn yn cael goblygiadau amlwg o ran y costau, y beichiau a'r arbedion a nodir yn yr asesiad effaith? Os felly, a fyddech gystal â darparu ffigurau a manylion y dystiolaeth y seiliwyd eich tybiaethau arnynt.**

**C10: A ydych yn cytuno y dylai fod modd i safleoedd y maent yn parhau i feddu ar drwydded ar ôl y diwygiadau, allu cynnal gweithgareddau adloniant yr oeddent yn cael eu rheoleiddio'n flaenorol heb yr angen i fynd trwy broses Amrywiad Llawn neu Fân Amrywiad?**

# Pennod 3: Rôl rheolaethau trwyddedu

## Cyflwyniad

3. Yn yr adran hon, byddwn yn esbonio cefndir cyffredinol trefniadau diogelu rheoliadol yn Neddf Trwyddedu 2003 ac yn gofyn am safbwyntiau sy'n berthnasol ar draws y gyfundrefn "adloniant wedi'i reoleiddio". Bydd Penodau 4-11 yn ystyried eitemau unigol yn Atodlen Un, felly bydd modd i chi ddewis neilltuo'ch sylwadau mewn cwestiynau a ofynnir yn yr adrannau hynny os byddai hynny'n fwy priodol.

### Y pedwar amcan trwyddedu

3.1. Fel y nodwyd ym mharagraff 2.4, mae Deddf Trwyddedu 2003 yn cynnwys pedwar amcan trwyddedu ac mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu gyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd a fydd yn hyrwyddo'r amcanion hynny. Y rhain yw:

- Atal Trosedd ac Anrhefn;
- Atal Niwsans Cyhoeddus;
- Diogelu Plant rhag Niwed;
- Diogelwch y Cyhoedd.

Mae'r pedwar amcan hwn yn elfennau diogelu pwysig, yn enwedig o ran gwerthu a chyflenwi alcohol, sef prif gydran Deddf Trwyddedu 2003.

3.2. Wrth ystyried effeithiolrwydd a chymesuredd y gyfundrefn drwyddedu, mae'r cynnig hwn yn ceisio ystyried yr angen am drwyddedu yng nghyd-destun trefniadau diogelu deddfwriaethol eraill y maent eisoes mewn grym. Bydd y bennod hon yn gwneud hynny trwy archwilio'r pedwar amcan trwyddedu a cheisio safbwyntiau ynghylch rheolaethau angenrheidiol.

3.3. Mae'r cynnig yn yr ymgynghoriad hwn yn awgrymu nad yw adloniant wedi'i reoleiddio ynddo'i hyn yn peri fawr iawn o risg i'r amcanion trwyddedu yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae ystyriaethau'n bodoli ynghylch diflastod sŵn a achosir gan gerddoriaeth a phan allai cynulleidfaoedd o hyd at 4,999 o bobl fynychu digwyddiadau lle na fyddai unrhyw drwydded gan awdurdod trwyddedu yn bresennol, yn ogystal â materion cysylltiedig yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd.

### Trosedd ac anrhefn

3.4. Pan fydd problemau yn codi, mae hyn yn aml oherwydd y ffaith bod alcohol yn cael ei werthu a'i yfed ar y safle.

3.5. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau sy'n bodoli eisoes ac y maent yn cynnig adloniant wedi'i reoleiddio, yn meddu ar drwydded yn barod ar gyfer alcohol a **bydd rheolaethau sy'n bodoli eisoes yn parhau i gael eu gweithredu dan y cynigion hyn.** Mae'r rhagofalon alcohol sy'n bodoli eisoes yn cynnig cymhelliant pwerus er mwyn sicrhau bod amcanion trwyddedu yn cael eu diogelu, ac fel yr amlinellwyd yn gynharach, gallai methu cydymffurfio arwain at adolygiad o'r drwydded, a allai arwain at gau'r safle, dirwy drom

iawn, a dedfryd o garchar bosibl i'r trwyddedai. Fodd bynnag, dan ein cynigion ni, ni fyddai gofyniad i hysbysu'r awdurdod trwyddedu neu'r heddlu o ddigwyddiad y byddai modd i hyd at 4999 o bobl ei fynychu, lle na fyddai alcohol yn cael ei werthu.

3.6. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn deddfu trwy gyfrwng Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol er mwyn ailosod y cydbwysedd o ran rheoleiddio sy'n ymwneud â thrwyddedu alcohol. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys, er enghraifft, rhoi mwy o bwerau i awdurdodau trwyddedu ac i'r heddlu derfynu trwyddedau safleoedd sy'n peri problem, a chynyddu cyfraniad cyrff iechyd ac awdurdodau iechyd yr amgylchedd mewn penderfyniadau trwyddedu, gan gynnwys Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro.

3.7. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn rhoi pwerau ychwanegol i gymunedau lleol i lywio'u heconomïau gyda'r hwyr ac i fynd i'r afael â throsedd ac anrhefn sy'n cael ei ysgogi gan alcohol, trwy ganiatáu i awdurdodau trwyddedu gasglu cyfraniad neu dreth gan adwerthwyr alcohol y maent ar agor yn hwyr, tuag at y gost o ddarparu gwasanaeth plismona gyda'r hwyr, a chan ymestyn pwerau i gyfyngu ar weithgarwch gwerthu alcohol mewn ardaloedd sy'n peri problem. Yn ogystal, bydd y Llywodraeth yn cymryd camau i ddatgymalu deddfwriaeth ddianghenraid, ond bydd yn parhau i reoleiddio mewn ffordd wedi'i thargedu yn ôl yr angen. Dylai'r mesurau newydd ynghylch alcohol, ynghyd â chamau i ddadreoleiddio'r gweithgareddau adloniant risg isel neu nad ydynt yn peri unrhyw risg o gwbl, mewn ffordd synhwyrol, arwain at gyfundrefn o reolaethau sy'n fwy effeithiol ac sy'n cynnwys mwy o ffocws.

3.8. Felly er na fyddai gofyniad yn bodoli mwyach i sicrhau caniatâd penodol ar gyfer gweithgareddau a ddosbarthir fel adloniant wedi'i reoleiddio ar hyn o bryd, byddai rheolaethau cyffredinol mewn grym o hyd mewn perthynas â'r drwydded alcohol (neu, pan fo hynny'n berthnasol, caniatâd ar gyfer lluniaeth gyda'r hwyr). Er enghraifft, dan y trefniadau cyfredol, nid oes angen i dafarn sicrhau caniatâd penodol er mwyn dangos gêm bêl-droed ryngwladol ar sgrin fawr. Fodd bynnag, os bydd angen rhoi sylw i unrhyw risg clir y bydd anrhefn yn codi mewn perthynas â'r digwyddiad, bydd modd i awdurdod cyfrifol fel yr heddlu geisio adolygiad er mwyn gweithredu mesurau megis cyfyngu'r oriau agor cyn dangos y gêm, neu ddefnyddio gwydrau plastig, neu gyflogi staff drws ychwanegol – er nad yw'r darllediad ei hun ar y teledu yn weithgarwch trwyddedadwy.

3.9. Fel arfer, cynhelir digwyddiadau mewn safleoedd didrwydded a gynhelir dan TEN ar hyn o bryd, mewn safleoedd anfasnachol sy'n cael eu goruchwylio a'u rheoli gan bwyllgor rheoli neu gorff llywodraethu (er enghraifft, neuadd gymunedol, ysgol neu glwb) neu fel arall, byddant yn cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol. Er na fydd hyn yn gwaredu’n llwyr pob risg y bydd trosedd ac anrhefn yn digwydd, mae'n awgrymu bod gofyniad hollgynhwysol i'r holl rai sy'n darparu cerddoriaeth ac adloniant arall i sicrhau trwydded, yn ofyniad anghymesur a dianghenraid.

3.10. Fodd bynnag, dylem ystyried y ffaith y bydd gwaredu rheoliadau trwyddedu yn cael gwared ar y gofyniad i hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a'r heddlu yn awtomatig o'r ffaith bod digwyddiad adloniant yn cael ei gynnal. Byddem yn ddiolchgar i gael safbwyntiau ynghylch ystyriaethau posibl o ran diogelwch y cyhoedd a throsedd ac anrhefn yn y cwestiynau sy'n ymddangos yn yr ymgynghoriad hwn.

### Niwsans Cyhoeddus (sŵn)

3.11. **Bydd gofyn i safle sy'n gwerthu alcohol feddu ar drwydded o hyd** fel yr amlinellwyd uchod. Mae modd defnyddio trwyddedau alcohol yn barod er mwyn rhoi sylw i sŵn a meysydd eraill sy'n peri pryder, ac mae Deddf Trwyddedu 2003 yn rhoi pwerau i'r heddlu gau safleoedd trwyddedig ar fyr rybudd o ganlyniad i anrhefn neu oherwydd rhesymau'n

ymwneud â niwsans cyhoeddus, sy'n cynnwys sŵn. Mae'r broses hon yn gallu arwain at bennu amodau y mae'n rhaid iddynt gael eu bodloni cyn y bydd modd i'r safle ailagor. Bydd Gorchmynion Cau o'r fath dan Ddeddf Trwyddedu 2003 yn arwain at adolygiad o'r drwydded yn awtomatig, ac unwaith eto, bydd modd gosod amodau ar y drwydded. Yn ogystal, mae Awdurdodau Lleol yn cadw gafael ar yr hawl i osod ystod lawn o amodau ar drwyddedau alcohol yn dilyn Adolygiad trwydded. Unwaith eto, gallai methu cydymffurfio arwain at ddirwy drom iawn a dedfryd bosibl o garchar am hyd at chwe mis i'r trwyddedai.

3.12. Yn ogystal, bydd **pob safle,** os ydynt yn meddu ar drwydded alcohol neu beidio, yn parhau i fod yn rhwym i'r pwerau sy'n bodoli eisoes ynghylch diflastod sŵn ac atal yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae'r pwerau hyn yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cymryd camau rhesymol er mwyn ymchwilio i gŵyn ynghylch niwsans posibl ac i gyflwyno hysbysiad atal pan fyddant yn fodlon bod niwsans yn bodoli neu'n debygol o ddigwydd neu ailddigwydd.

3.13. Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn cynnwys pwerau hefyd, y maent yn caniatáu i'r heddlu gau safleoedd trwyddedig er mwyn atal niwsans cyhoeddus a achosir gan sŵn sy'n dod o'r safleoedd hynny. Yn gynharach eleni, cyflwynodd y Llywodraeth gynigion er mwyn symleiddio pwerau y mae'r heddlu ac eraill yn meddu arnynt er mwyn delio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ffordd radical, a'u gwella.

3.14. Yn ogystal, ceir Deddf Sŵn 1996, sy'n caniatáu i'r awdurdod lleol weithredu (cyhoeddi hysbysiad rhybudd, neu hysbysiad cosb benodedig, neu atafaelu offer) yn achos safleoedd trwyddedig pan fo'r sŵn rhwng 11pm a 7am yn uwch na'r lefelau a ganiateir.

3.15. Yn olaf, dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, mae gan yr heddlu bwerau ar hyn o bryd i symud pobl sy'n mynychu neu y maent yn paratoi ar gyfer partïon gwyllt gyda'r hwyr ar dir yn yr awyr agored – bydd gwrthod gadael neu ddychwelyd i dir o'r fath ar ôl cael cyfarwyddyd gan yr heddlu yn drosedd.

3.16. Byddai **safleoedd nad ydynt yn gwerthu alcohol** (megis bwytai a chaffis didrwydded, yn ogystal â safleoedd anfasnachol fel neuaddau cymunedol, ysgolion ac ysbytai) yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â diflastod sŵn megis Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Fel y cyfeiriwyd ato uchod, mae safleoedd anfasnachol fel neuaddau pentref yn tueddu i gael eu rhedeg gan bwyllgor neu fwrdd rheoli lleol er mwyn cynrychioli buddiannau'r gymuned leol ac er mwyn gweithredu'r rheolaeth angenrheidiol os byddai problemau'n codi. Mewn amgylchiadau o'r fath fodd bynnag, ni fyddai'r rheolaethau trwydded sy'n bodoli eisoes mewn grym mwyach, felly byddem yn gwerthfawrogi safbwyntiau ynghylch unrhyw bryderon posibl yn y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn.

## Diogelwch y Cyhoedd

3.17. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, ynghyd â deddfwriaeth anabledd, yn cynnig diogelwch mewn perthynas â diogelwch y cyhoedd mewn digwyddiad, gan roi dyletswydd eglur i gymryd camau rhesymol er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch. Yn ogystal, mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (SI 2005/1541) yn pennu dyletswyddau diogelwch tân mewn perthynas â'r rhan fwyaf o safleoedd annomestig.

3.18. Dylid atal problemau a allai godi mewn digwyddiadau trwy gyfrwng yr asesiadau risg a thrwy gydymffurfio gyda dyletswyddau eraill a bennir gan y ddeddfwriaeth hon, yn

hytrach na thrwy gyfrwng yr haen ychwanegol o fiwrocratiaeth a bennir gan ofynion Deddf Trwyddedu 2003.

3.19. Er bod rhai awdurdodau trwyddedu yn dibynnu ar Ddeddf Trwyddedu 2003 yn hytrach na deddfwriaeth arall, mae sawl math o weithgarwch adloniant torfol eisoes yn cael eu cynnal yn llwyddiannus y tu allan i'r gyfundrefn drwyddedu. Mae niferoedd mawr o bobl yn dod at ei gilydd mewn un man heb drwydded adloniant er mwyn mynychu digwyddiadau fel ffeiriau pleser, sioeau sirol, gwrthdystiadau a raÏïau gwleidyddol, digwyddiadau crefyddol, rasys ceir stoc, neu chwaraeon yn yr awyr agored megis Cwpan Ryder, neu gystadlu ar y tair camp, sy'n para tridiau. Nid oes modd cyfiawnhau pam y dylid ystyried bod digwyddiadau megis *ballet*, cyngherddau clasurol neu syrcasau yn peri mwy o risg i ddiogelwch y cyhoedd na'r gweithgareddau hyn.

**Diogelu Plant**

3.20. Ceir dau brif faes perthnasol mewn perthynas ag adloniant wedi'i reoleiddio, lle mae'n bwysig ein bod yn diogelu plant rhag niwed.

3.21. Y cyntaf o'r rhain yw atal cyfleoedd i fanteisio ar gynnwys anaddas (er enghraifft, gan gyfyngiadau dosbarthu ffilmiau, a chan gyfyngiadau ar adloniant rhywiol). Mae'r ail agwedd yn ymwneud â diogelu plant mewn ffordd gorfforol, mewn perthynas â chymryd rhan mewn chwaraeon dan do a gweithgareddau eraill.

3.22. Rhoddir sylw i faterion penodol ynghylch cynnwys anaddas yng nghyd-destun dawns a ffilm ym mhenodau 6 a 7 yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, mae rhai themâu sy'n ymwneud â diogelu cynnwys yn berthnasol i sawl math o adloniant wedi'i reoleiddio, a hoffem gael eich safbwyntiau am y rhain ar ddiwedd y bennod hon.

3.23. Nid yw adloniant oedolion yn weithgarwch trwyddedadwy ar wahân dan Ddeddf 2003, ond yn gyffredinol, bydd deddfwriaeth arall yn delio gyda'r gweithgarwch hwn (gweler paragraff 11.4). Nid yw rhai mathau o adloniant oedolion (megis digrifwyr anweddus) yn drwyddedadwy o gwbl ar hyn o bryd. Ym mwyafrif yr achosion, cynhelir gweithgareddau o'r fath mewn safleoedd y maent yn meddu ar drwydded i werthu alcohol i'w yfed ar y safle, a bydd cyfyngiadau yn cael eu gweithredu yn awtomatig ynghylch mynediad plant nad ydynt yng nghwmni oedolyn. Ni fyddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio ar y sefyllfa fel y mae hi ar hyn o bryd.

3.24. Yn yr ail faes sy'n ymwneud â diogelu plant (diogelwch corfforol plant sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dan do, a gweithgareddau tebyg), mae polisïau amddiffyn plant cadarn eisoes yn bodoli ac mewn grym ar draws pob math o chwaraeon a ariannir gan y Llywodraeth. Mae gofyn i chwaraeon cydnabyddedig feddu ar gorff llywodraethu sy'n rheoli'r gamp ac sy'n sicrhau bod hyfforddwyr a swyddogion yn cael eu hyfforddi'n gywir.

3.25. Yn bwysicaf oll, mae Deddf Plant 1989 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ymchwilio i unrhyw bryderon y gallai plentyn fod yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol. Yn ogystal, mae deddfwriaeth arall yn ymwneud â gweithgarwch cyflogi plant, megis Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963 y mae, ymhlith pethau eraill, yn gosod cyfyngiadau ar blant yn cymryd rhan mewn perfformiadau cyhoeddus.

**Maint digwyddiadau**

3.26. Pan fydd digwyddiad yn cyrraedd maint penodol, mae'r Llywodraeth yn cydnabod ei bod yn gallu bod yn anodd rheoli'r digwyddiad gan ddefnyddio trwyddedau alcohol yn unig, ac efallai bod rhai digwyddiadau adloniant mawr – ar hyn o bryd neu yn y dyfodol – yn

dewis peidio gwerthu alcohol. Mae deddfwriaeth yn ymwneud â diogelwch meysydd chwaraeon, sy’n berthnasol i chwaraeon yn yr awyr agored, yn pennu cyfyngiad o 5,000 o wylwyr ar gyfer pêl-droed, a 10,000 ar gyfer mathau eraill o chwaraeon, cyn y bydd gofynion diogelwch penodol yn berthnasol.

3.27. Mae Deddf Trwyddedu 2003 eisoes yn cydnabod y baich ychwanegol mae digwyddiadau mawr yn gallu eu rhoi ar awdurdodau lleol trwy weithredu ffi drwydded ychwanegol ar gyfer digwyddiadau lle y bydd mwy na 4,999 o bobl yn bresennol.

3.28. **Felly, mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig mai dim ond digwyddiadau y mae ganddynt gynulleidfa o lai na 5,000 o bobl ddylai gael eu dadreoleiddio o Ddeddf 2003.**

3.29. Byddem yn croesawu safbwyntiau am y ffigwr hwn yn y cwestiynau a ofynnir ar ddiwedd y bennod hon. Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, er enghraifft, wedi awgrymu y gallai'r cyfyngiad o 500 o bobl mewn cynulleidfa, sy'n berthnasol i Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro, fod yn bwynt cychwyn mwy priodol.

3.30. Yn yr un modd, byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch a ddylid pennu gwahanol gyfyngiadau ar gyfer gwahanol fathau o adloniant – er enghraifft, na ddylid gweithredu unrhyw gyfyngiad o ran maint y gynulleidfa ar gyfer perfformiadau cerddoriaeth lle na chaiff y sain ei chwyddo (gan eu bod yn hunangyfyngol, o ganlyniad i'r cyrhaeddiad acwstig), ac a ddylid trin digwyddiadau a gynhelir yn yr awyr agored mewn ffordd wahanol i'r rhai a gynhelir mewn adeilad. Unwaith eto, gofynnir cwestiynau sy'n ymwneud â'r materion hyn mewn ffordd gyffredinol ar ddiwedd y bennod hon.

## Amser digwyddiadau

3.31. Mae diflastod sŵn yn gallu bod yn fater penodol sy'n peri pryder i'r rhai sy’n byw gerllaw mannau perfformio. Dadleuwyd bod angen gweithredu rheolaethau penodol ar gyfer digwyddiadau a gynhelir ar ôl 11pm. Cefndir hyn yw bod 11pm yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth bresennol ynghylch sŵn fel dechrau “oriau'r nos” (sy'n cael ei ddiffinio gan Sefydliad Iechyd y Byd fel *y cyfnod sy'n dechrau am 11pm ac sy'n dod i ben am 7am ar ôl hynny)* yn Neddf Sŵn 1996 a'r adeg pan fydd pwerau rheoli’r Ddeddf Sŵn yn dechrau cael eu gweithredu.

3.32. **Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnig y dylid cyflwyno 11pm fel torbwynt ar gyfer dadreoleiddio adloniant wedi'i reoleiddio.** Mae hyn oherwydd bod pwerau cyfreithiol y maent yn bodoli eisoes yn Neddf Sŵn 1996 yn gwneud darpariaeth arbennig er mwyn delio gyda phroblemau sy'n digwydd ar ôl 11pm ar gyfer safleoedd y maent yn meddu ar drwydded alcohol, a fydd yn cynnwys mwyafrif helaeth y lleoliadau adloniant. Mae pwerau'r Ddeddf Sŵn yn mynd law yn llaw gyda Deddf Trwyddedu 2003, fel bod modd i swyddogion Awdurdodau Lleol fynd i'r afael ag unrhyw safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio gydag amodau eu trwydded ar unwaith, ond dylid nodi nad yw'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yn cynnal gwasanaeth llawn er mwyn galluogi pobl i gwyno ynghylch sŵn y tu allan i oriau gwaith arferol.

3.33. Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn rhoi pwerau i Awdurdodau Lleol gau safle swnllyd am hyd at 24 awr ar unwaith, a chanlyniad hyn fydd hyd at dri mis yn y carchar, dirwy o £20,000, neu'r ddau. Er bod hwn yn ataliad sylweddol, byddem yn ddiolchgar am safbwyntiau ynghylch unrhyw broblemau posibl neu faterion sy'n ymwneud gyda gorfodi neu neilltuo adnoddau, gan gynnwys unrhyw faterion eraill a allai fod yn bodoli, megis neilltuo adnoddau ar gyfer gwasanaeth “y tu allan i oriau”.

3.34. Mae mesurau ychwanegol dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn delio gyda digwyddiadau cerddoriaeth a gynhelir gyda'r hwyr yn yr awyr agored, ac nad ydynt wedi'u trwyddedu dan Ddeddf 2003. Mae'r rhan fwyaf o adloniant sy'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd yn gorffen erbyn 11pm, ond byddai cyflwyno torbwynt yn creu sefyllfa anhyblyg ac i bob pwrpas, byddai'n golygu y byddai'n anghyfreithlon i berfformiad didrwydded orffen 10 munud yn hwyr. Byddai hyn yn ailgyflwyno'r math o ganlyniadau anfwriadol y mae'r broses ddadreoleiddio yn ceisio'u gwaredu, lle na fydd anghyfreithlondeb yn ymwneud o gwbl gydag effaith y gweithgarwch unigol go iawn.

3.35. Yn ystod y ddadl a gafwyd yn ddiweddar yn ystod cam Pwyllgor y Mesur Cerddoriaeth Fyw yn Nhŷ'r Arglwyddi, dywedodd sawl un o'r siaradwyr eu bod yn cefnogi canol nos fel torbwynt eithriadau ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth bach.[3]

3.36. Felly, nid yw'r Llywodraeth yn cynnig unrhyw dorbwynt o ran yr amser pan fydd gofyn i adloniant a fydd yn cael ei ddadreoleiddio o Ddeddf 2003 orffen. Fodd bynnag, rydym yn croesawu safbwyntiau ynghylch y mater hwn ar ddiwedd y bennod hon. Mae hyn yn cynnwys ceisio safbwyntiau ynghylch a ddylai unrhyw gyfyngiadau fodoli o ran yr amser ac os felly, a ddylai hwn fod yr un fath ar gyfer pob gweithgarwch adloniant neu'r rhai y credir eu bod yn peri risg penodol yn unig. Yn ogystal, byddai o gymorth clywed safbwyntiau ynghylch a ddylid gwahaniaethu rhwng digwyddiadau a gynhelir dan do ac yn yr awyr agored.

3.37. Gallai datblygu Cod Ymarfer ar gyfer lleoliadau adloniant fod yn un dewis amgen i'r trefniant trwyddedu presennol. Gallai hyn helpu i sicrhau arfer gorau ataliol heb yr angen i reoleiddio. Er na fyddai hyn yn cynnwys unrhyw sancsiynau statudol, byddai'n annog arfer da. A fyddai dull gweithredu o'r fath yn lleihau risgiau? Unwaith eto, byddem yn croesawu safbwyntiau.

---

[3] http://www.publications.parliament.uk/pa/ld201011/ldhansrd/text/110715-0001.htm#11071554000685

## Rôl Rheolaethau Trwyddedu: Cwestiynau

**C11: A ydych yn cytuno y dylai digwyddiadau ar gyfer llai na 5,000 o bobl gael eu dadreoleiddio ar draws yr holl weithgareddau a restrir yn Atodlen Un Deddf Trwyddedu 2003?**

**C12: Os ydych o'r farn y dylai fod yna gyfyngiad gwahanol – naill ai dan 5,000 neu dros 5,000, beth ddylai'r cyfyngiad hwn fod yn eich barn chi? Esboniwch eich rhesymau dros eich dymuniad i weld cyfyngiad gwahanol yn cael ei weithredu, a pha dystiolaeth sy'n cefnogi'ch safbwynt.**

**C13: Yn eich barn chi, a ddylai fod cyfyngiadau gwahanol o ran maint y gynulleidfa ar gyfer gwahanol weithgareddau a restrir yn Atodiad Un? Os felly, a fyddech gystal ag amlinellu pam y dylai hyn fod. Yn ogystal, a fyddech gystal ag awgrymu pa gyfyngiadau ddylai fod yn berthnasol i'r gweithgarwch penodol dan sylw yn eich barn chi.**

**C14: Yn eich barn chi, a fyddai safle na fyddai'n meddu ar drwydded mwyach, o ganlyniad i'r cam o ddadreoleiddio adloniant, yn peri risg sylweddol i unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu gwreiddiol? Os felly, darparwch fanylion am y sefyllfa dan sylw.**

**C15: Yn eich barn chi, a ddylid trin digwyddiadau yn yr awyr agored mewn ffordd wahanol i'r rhai a gynhelir dan do, o ran maint y gynulleidfa? Os felly, a fyddech gystal ag esbonio pam, a'r hyn y byddai hyn yn ei olygu mewn gwirionedd.**

**C16: A ydych o'r farn na ddylai digwyddiadau a gynhelir ar ôl amser penodol gael eu dadreoleiddio? Os felly, a fyddech gystal ag esbonio'r amser a fyddai'n dorbwynt priodol yn eich barn chi, a pham y dylai hyn gael ei weithredu.**

**C17: A ddylid gweithredu gwahanol dorbwyntiau o ran yr amser ar gyfer gwahanol fathau o adloniant a/neu ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yn yr awyr agored a digwyddiadau dan do? Os felly, esboniwch pam.**

**C18: A cheir dulliau gweithredu amgen i gyfundrefn drwyddedu a fyddai'n gallu helpu i ddelio gydag unrhyw risgiau posibl ynghylch amseriad digwyddiadau?**

**C19: Yn eich barn chi, a fyddai cod ymarfer yn ffordd dda o leddfu risgiau posibl yn ymwneud â sŵn? Os felly, beth ddylai cod o'r fath gynnwys yn eich barn chi, a sut ddylai weithredu?**

**C20: A ydych yn cytuno bod cyfreithiau sy'n ymwneud gyda materion megis sŵn, diogelwch y cyhoedd, diogelwch tân ac anhrefn, yn gallu delio gyda risgiau posibl yn ystod digwyddiadau adloniant wedi'u dadreoleiddio? Os na, sut fyddai modd rheoli'r risgiau hynny yn absenoldeb cyfundrefn drwyddedu?**

**C21: Sut allai amseriad / hyd digwyddiadau newid o ganlyniad i'r cynigion hyn yn eich barn chi? A fyddech gystal â darparu tystiolaeth a rhesymeg dros eich safbwynt.**

**C22: A oes angen ystyried unrhyw agweddau eraill wrth ystyried dadreoleiddio Atodlen Un o ran pedwar amcan trwyddedu Deddf Trwyddedu 2003?**

# Pennod 4: Perfformiadau Cerddoriaeth Fyw

## Cyflwyniad

4. Roedd Cytundeb y Glymblaid yn ymrwymo i leihau biwrocratiaeth er mwyn annog rhagor o berfformiadau cerddoriaeth fyw.

4.1. Bwriadwn anrhydeddu'r cytundeb hwn mewn dwy ffordd. Y cyntaf fydd anrhydeddu ein hymroddiad cyhoeddus i gefnogi'r Mesur Cerddoriaeth Fyw, Mesur Aelod Preifat a gyflwynwyd yn 2010 yn Nhŷ'r Arglwyddi gan Arglwydd Clement Jones, a oedd yn dilyn argymhelliad ynghylch dadreoleiddio cerddoriaeth fyw gan y Pwyllgor Dethol Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2009, ac ymgynghoriad cyhoeddus llawn am y mater yn 2010. O'r herwydd, **nid** y Mesur Cerddoriaeth Fyw yw testun yr ymgynghoriad hwn.[4]

4.2. Yr ail ffordd yw archwilio, trwy gyfrwng yr ymgynghoriad hwn, a yw'n gweithgarwch dadreoleiddio arfaethedig yn ddigon uchelgeisiol ar gyfer y llu o dalent yng Nghymru a Lloegr a fyddai'n cael budd o weithgarwch dadreoleiddio ehangach nag y bydd y Mesur Cerddoriaeth Fyw yn ei ganiatáu ar ei ben ei hun. Wrth ystyried cerddoriaeth fyw, byddem yn ddiolchgar i gael ymatebion i'r cwestiynau cyffredinol a ofynnir ym mhennod 3, a hefyd, i'r cwestiynau ynghylch cerddoriaeth fyw a seiliwyd ar y cynnig isod yn yr ymgynghoriad.

4.3. Mae cerddoriaeth fyw wrth wraidd ein traddodiadau diwylliannol lleol a chenedlaethol, ac mae'n parhau i gyflawni rôl bwysig yn ein hunaniaeth leol a chenedlaethol. Yn ogystal â bod yn wefreiddiol ac yn gynhwysol, gall cerddoriaeth newid y ffordd y byddwn yn ystyried ein hunain a'r argraff y mae eraill yn ei chael ohonom. Caiff ein treftadaeth gerddorol ei theimlo'n gryf ar draws Cymru a Lloegr, gyda hanes perfformio byw yn ymestyn o ganu traddodiadol a gwerin dros gannoedd o flynyddoedd, i'n byd cerddorol lleol ar draws cymaint o drefi a dinasoedd, sy'n enwog ar lefel ryngwladol.

4.4. Dros y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, er bod cerddoriaeth mewn lleoliadau mawr yn ffynnu, mae cerddoriaeth mewn lleoliadau bach wedi bod yn prinhau'n raddol. Mae nifer o dafarndai – lleoliad traddodiadol cryn dipyn o'r gerddoriaeth fyw – wedi cau, felly bu gostyngiad o ran y gerddoriaeth a ddarparir mewn lleoliadau eilaidd[5].

---

[4]Cyflwynwyd Mesur Arglwydd Clement Jones y llynedd, ac mae modd darllen copi llawn ohono trwy droi at: http://services.parliament.uk/bills/2010-11/livemusichl/documents.html

[5]http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/%2B/http://www.culture.gov.uk/reference_library/research_and_statistics/4854.aspx

## Ein cynnig

4.5. **Y cynnig hwn yw y dylid dadreoleiddio perfformiadau cyhoeddus cerddoriaeth fyw (pan gaiff y sain ei chwyddo a phan na chaiff ei chwyddo) ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n cynnwys llai na 5,000 o bobl.**

4.6. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3, mae trefniadau diogelu deddfwriaethol eisoes yn bodoli mewn perthynas â'r pedwar amcan trwyddedu, a'r mesurau hynny y dylid eu defnyddio fel rheolaethau ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth, yn hytrach na system drwyddedu anhyblyg a beichus.

## Maint y gynulleidfa

4.7. Yn aml, codir materion ynghylch maint ac amser digwyddiadau mewn perthynas â digwyddiadau megis gwyliau cerddorol mawr, y byddai'n rhaid iddynt sicrhau trwydded o hyd dan gynigion y Llywodraeth os byddent yn cynnig lle i 5,000 o bobl neu fwy. Fel yr esboniwyd ym mhennod 3, caiff y cyfyngiad o 5,000 ei gydnabod eisoes fel trothwy cynulleidfa ar gyfer digwyddiadau mwy yn y sectorau chwaraeon ac adloniant. Mae'r cyfyngiad hwn yn cynnwys ffin o ran cynhwysedd ar gyfer ffioedd yn Neddf Trwyddedu 2003 hefyd, gan gydnabod materion allweddol y maent yn gysylltiedig gyda rheolaethau ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys cynulleidfaoedd mwy o faint na hyn.

4.8. O ran cerddoriaeth lle na chaiff y sain ei chwyddo, ceir dadl bosibl nad oes angen pennu cyfyngiad o ran maint y gynulleidfa o ganlyniad i'r posibiliadau hunangyfyngol oherwydd cyrhaeddiad acwstig y digwyddiad. Felly, byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch a ddylid dadreoleiddio cerddoriaeth lle na chaiff y sain ei chwyddo, heb osod unrhyw gyfyngiadau o ran y niferoedd neu'r adeg o'r dydd.

### Perfformiadau Cerddoriaeth Fyw: Cwestiynau

**C23: A oes unrhyw faterion ynghylch diogelu'r cyhoedd, y maent yn ymwneud yn benodol gyda dadreoleiddio perfformiadau cerddoriaeth fyw, nad ydynt yn cael eu hystyried ym mhennod 3 yr ymgynghoriad hwn? Os felly, sut fyddai modd rhoi sylw iddynt mewn ffordd gymesur ac wedi'i thargedu?**

**C24: Yn eich barn chi, a ddylai cerddoriaeth lle na chaiff y sain ei chwyddo gael ei dadreoleiddio'n llawn, heb osod unrhyw gyfyngiadau o ran y niferoedd ac amser y dydd/nos? Os na, esboniwch pam, gan ddarparu unrhyw dystiolaeth ynghylch y niwed.**

**C25: A oes unrhyw fanteision neu broblemau eraill yn gysylltiedig gyda'r cynnig i ddadreoleiddio cerddoriaeth fyw yn benodol?**

# Pennod 5: Perfformiadau drama

## Cyflwyniad

5. Mae gan y broses o reoleiddio dramâu hanes hir ac enwog. Roedd Deddf Trwyddedu 2003 yn cynnig y diwygiadau cyntaf i drefniadau trwyddedu ym maes theatr er Deddf Theatrau 1968, a oedd yn rhyddhau dramodwyr o sensoriaeth lem Arglwydd Chamberlain, a fu mewn grym ers y cyflwynwyd Deddf Trwyddedu 1737.

5.1. Roedd yn nodi'n eglur na fyddai modd i awdurdodau trwyddedu wrthod trwyddedu theatr am resymau a oedd yn ymwneud gyda'r cynnwys yn gyffredinol. Roedd Deddf 1968 yn diweddaru agweddau eraill ar y gyfraith, y maent mewn grym o hyd yn ôl y llyfr deddfau – ynghylch anweddustra, difenwi ac ysgogi tor-heddwch.

### Maint lleoliadau

5.2. Bob blwyddyn, amcangyfrifir bod 92,000 o ddramâu'n cael eu perfformio gan grwpiau gwirfoddol neu amatur yn unig, gyda'r mwyafrif helaeth yn cael eu cynnal mewn lleoliadau bach neu ar ffurf cynyrchiadau teithiol. I nifer o'r lleoliadau hyn, maent yn bodoli wrth fin y gyllell, ac mae cynyrchiadau unigol mewn perygl yn gyson o ganlyniad i'r angen i adennill costau llwyfannu. Credwn fod dadreoleiddio rhywfaint o'r gofynion lle na chaiff alcohol ei werthu na'i gyflenwi, yn cynnig cyfle go iawn wrth helpu i sicrhau ei bod yn haws llwyfannu dramâu a pherfformiadau mewn lleoliadau llai, yn ogystal â rhoi mwy o gyfle i theatr a gynhelir mewn lleoliadau penodol (er enghraifft, cynyrchiadau wedi'u lleoli mewn ffatrïoedd neu goedwigoedd) i ffynnu.

### Adfywio ac adnewyddu

5.3. Mae ecoleg y byd theatr ym Mhrydain yn eang ac yn amrywiol, ac mae grwpiau amatur a chynyrchiadau ar y cyrion yn cyflawni rôl bwysig wrth gyfrannu at leoliadau mwy. Ceir cryn dystiolaeth ynghylch pwysigrwydd theatr i economi’r Deyrnas Unedig, gydag astudiaethau fel Adroddiad Shellard (2004) yn dangos effaith economaidd flynyddol gadarnhaol o £2.6bn.

5.4. Rydym wedi gweld effaith theatr ar wyliau diwylliannol bach a mawr ar draws y rhanbarthau – barnir bod Gwyliau Caeredin yn cyfrannu £245m i'r economi leol. Mae gwyliau diwylliannol yn cael effaith adfywiol enfawr, gan ddarparu hunanddelwedd gymunedol hynod o gadarnhaol.

### Gwerth addysgiadol

5.5. Mae dramâu yn cynnig cyfle unigryw bron i ymgysylltu gyda phlant, gan wella hunanwerth, lefelau presenoldeb ym myd addysg a sgiliau cyfranogi. Ar hyn o bryd, nid oes angen i ysgol wneud cais am drwydded pan na chodir tâl mynediad ar rieni, ond os bydd yr ysgol yn dymuno croesawu'r cyhoedd ehangach i'r perfformiad neu godi tâl mynediad bach er mwyn cynnig budd i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, bydd angen sicrhau trwydded. Yn yr un modd â dawns a cherddoriaeth fyw, mae hon yn un enghraifft

o'r ffordd y byddai cael gwared ar y baich reoleiddio yn rhyddhau ysgolion (a grwpiau cymunedol a gwirfoddol yn yr un modd), i gynnal cynyrchiadau risg isel yn y gymuned.

5.6. Ond nid yw effaith addysgiadol theatr yn cael ei chyfyngu i ysgolion yn unig. Mae effeithiau theatr mewn carchardai, er enghraifft, yn cyflawni rôl sylweddol o ran adsefydlu, ac mae perfformiadau cyhoeddus yn gallu cael effaith yr un mor fuddiol ar hunanwerth, fel y gwelir mewn fforymau addysgiadol eraill.

### Ein cynnig

5.7. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig y dylem dynnu theatr o'r rhestr o adloniant wedi'i reoleiddio yn Atodlen Un Deddf Trwyddedu 2003 ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n cynnwys llai na 5,000 o bobl.

5.8. Mae rheolaethau sy'n bodoli eisoes o Ddeddf Theatrau 1968 ynghylch anweddustra, difenwi ac ysgogi tor-heddwch yn parhau i fod yn y llyfr statud, a nodir rheolau ar wahân ynghylch iechyd a diogelwch a diogelu plant ym Mhennod 3.

**Perfformiadau Drama: Cwestiynau**

**C26: A oes unrhyw faterion ynghylch diogelu'r cyhoedd y maent yn ymwneud yn benodol gyda dadreoleiddio perfformiadau drama, nad ydynt yn cael eu hystyried ym mhennod 3 yr ymgynghoriad hwn? Os felly, sut fyddai modd rhoi sylw iddynt mewn ffordd gymesur ac wedi'i thargedu?**

**C27: A oes unrhyw ystyriaethau iechyd a diogelwch y maent yn rhai unigryw ar gyfer theatr yn yr awyr agored ac mewn mannau penodol, y maent yn wahanol i theatr dan do, ac y mae angen eu hystyried?**

**C28: Yn aml, bydd awdurdodau trwyddedu yn cynnwys amodau ynghylch pyrotechneg ac amodau tebyg ynghylch trin HAZMAT yn eu trwyddedau. Ai dim ond trwy'r gyfundrefn drwyddedu y mae modd delio gyda'r math hwn o gyfyngiad?**

**C29: A oes unrhyw fanteision neu broblemau eraill yn gysylltiedig gyda'r cynnig i ddadreoleiddio theatr yn benodol?**

# Pennod 6: Perfformiadau dawns

## Cyflwyniad

6. Yn hanesyddol mae’r prif resymau dros drwyddedu perfformiadau dawns wedi ymwneud â sicrhau bod y gynulleidfa yn cael eu diogelu rhag cynnwys anaddas, materion iechyd a diogelwch yn ymwneud â lleoliadau a pherfformwyr, a materion cyffredinol yn ymwneud â rheoli sŵn, fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3.

6.1 Ar hyn o bryd, mae yna ddiddordeb syfrdanol mewn dawns yng Nghymru a Lloegr, yn pontio demograffeg gymdeithasol eang iawn, gyda diddordeb cynyddol mewn ffurfiau dawns amrywiol, o ddawnsio stryd i ddawnsio neuadd fel y gwelir mewn rhaglenni teledu megis *Britain’s Got Talent, Strictly Come Dancing* a *So You Think You Can Dance*?.

6.2 Mae cymryd rhan yn y math hwn o weithgarwch yn cynnig manteision lluosog. Yn ogystal â ffyrdd o fyw iachach, ceir manteision o ran ffurfio cysylltiadau cymdeithasol wrth gyfranogi a pherfformio. Yn ogystal, mae'r agwedd berfformio ym maes dawns yn arwain at ymwybyddiaeth o waith tîm a hunan-barch. Yn yr un modd â dramâu, gwelir effaith y Gymdeithas Fawr sy'n grymuso, lle y bydd man cyhoeddus lleol a pherfformio lleol yn dod at ynghyd.

6.3 Ar sawl achlysur, bydd perfformiadau dawns yn drwyddedadwy, gan roi baich ar ysgolion a grwpiau dawns amatur ar draws Cymru a Lloegr. Ar hyn o bryd, mae ysgolion wedi'u heithrio rhag bod yn rhwym i ofynion trwyddedu pan na chodir tâl mynediad ar rieni, ond os byddai ysgol yn dymuno croesawu'r cyhoedd neu godi tâl mynediad bach er mwyn codi arian ar gyfer y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, byddai gofyn iddynt sicrhau trwydded neu TEN. Mae hon yn un enghraifft syml lle byddai gwaredu'r baich reoleiddio yn rhoi'r rhyddid i ysgolion (a grwpiau cymunedol a grwpiau gwirfoddol yn yr un modd) i gynnal cynyrchiadau risg isel yn y gymuned.

**<u>Ein cynnig</u>**

6.4 **Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig y dylem dynnu dawns o'r diffiniad “adloniant wedi'i reoleiddio” yn Atodlen Un Deddf Trwyddedu 2003 ar gyfer digwyddiadau y mae eu cynulleidfaoedd yn cynnwys llai na 5,000 o bobl.**

6.5 Sylwer bod Pennod 10 yn amlinellu'r ffaith nad yw'r Llywodraeth yn cynnig y dylid llacio'r rheolau ynghylch adloniant oedolion, y byddai modd eu dosbarthu fel perfformiadau dawns.

**Perfformiadau Dawns: Cwestiynau**

**C30: A oes unrhyw faterion ynghylch diogelu'r cyhoedd y maent yn ymwneud yn benodol gyda dadreoleiddio perfformiadau dawns, nad ydynt yn cael eu hystyried ym mhennod 3 yr ymgynghoriad hwn? Os felly, sut fyddai modd rhoi sylw iddynt mewn ffordd gymesur ac wedi'i thargedu?**

**C31: A oes unrhyw fanteision neu broblemau eraill yn gysylltiedig gyda'r cynnig i ddadreoleiddio perfformiadau dawns yn benodol?**

# Pennod 7: Dangos ffilmiau

## Cyflwyniad

7. Yng Nghymru a Lloegr, mae gofyn sicrhau trwydded er mwyn dangos ffilm (a ddiffinnir fel “unrhyw weithgarwch lle y dangosir darluniau byw”) i'r cyhoedd.

7.1. Heblaw am unrhyw amodau gweithredu ar gyfer lleoliadau penodol, fel yr amlinellir ym Mhennod 3, mae Deddf Trwyddedu 2003 yn nodi bod yn rhaid i drwyddedau er mwyn dangos ffilmiau gynnwys amod gorfodol y dylai'r sawl sy'n eu dangos gydymffurfio gyda chyfyngiadau ynghylch dosbarthiadau oedran ar gynnwys ffilmiau.

7.2. Mae Adran 20 Deddf Trwyddedu 2003 yn nodi bod modd i'r awdurdod trwyddedu ei hun ddarparu'r dosbarthiad cyfyngiad oedran, neu ildio i gorff cymwys dan Ddeddf Recordiadau Fideo 2004 (ar hyn o bryd, mae hwn yn rôl a neilltuwyd i Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain, “BBFC”).

7.3. Er bod awdurdodau trwyddedu yn defnyddio dosbarthiadau BBFC yn ddieithriad, o bryd i'w gilydd, mae rhai awdurdodau trwyddedu wedi dewis gosod eu dosbarthiadau ffilm eu hunain er mwyn adlewyrchu pryderon lleol.

7.4. Yn ogystal, mae awdurdodau trwyddedu yn gallu dosbarthu ffilmiau nas rhoddwyd dosbarthiad BBFC iddynt. Gallai hyn fod oherwydd na fwriadwyd i'r ffilm gael ei dangos ar lefel genedlaethol – efallai mai ffilm leol yw hi neu ffilm ddogfen i'w ffrydio dros y rhyngrwyd yn bennaf – neu oherwydd y bydd dosbarthiad cenedlaethol yn dilyn maes o law, fel sy'n digwydd gyda rhai gwyliau ffilm, lle caiff ffilm ei gwylio ymlaen llaw cyn i'r fersiwn terfynol gael ei baratoi er mwyn ei ddosbarthu.

### Y sefyllfa bresennol – anghysondebau

7.5. Yn ein barn ni, mae'r sefyllfa bresennol o ran dosbarthiadau BBFC ac awdurdodau trwyddedu lleol yn fecanwaith effeithiol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag cynnwys anaddas ac nid oes gan y Llywodraeth unrhyw fwriad i ddadreoleiddio'r maes dangos ffilmiau, oni bai bod modd parhau gyda'r system ddosbarthiadau, a ddeallir ac sy'n gweithio mewn ffordd effeithiol. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth o'r farn bod y broses o drwyddedu ffilmiau dan Ddeddf 2003 yn anghymesur ac yn ddianghenraid i raddau helaeth.

7.6. Gwelwyd enghreifftiau lle bu gofyn i feithrinfeydd cyn ysgol sicrhau trwydded er mwyn dangos DVDs plant. Gwelwyd achosion lle'r oedd tafarndai neu glybiau yn dymuno cynnal “noson deyrnged”, trwy ddangos, er enghraifft, recordiad o rownd derfynol Cwpan y Byd 1966, ond roedd y ffaith nad oeddent yn meddu ar drwydded yn eu hatal rhag gwneud hynny. Gallai'r rhestr ymestyn i nifer o weithgareddau risg isel eraill, megis clybiau aelodau yn dymuno dangos ailddarllediadau o fuddugoliaeth Virginia Wade yn Wimbledon yn ystod pythefnos Wimbledon. Yn yr un modd, os byddai lleoliad nad oedd yn meddu ar ganiatâd trwydded er mwyn dangos ffilm yn dymuno cynnal noson dan thema arbennig, gan ddangos ffilm dramor neu ddangos ffilm dymhorol megis “*It's a Wonderful Life*” adeg y Nadolig – byddai gofyn iddynt sicrhau trwydded neu TEN.

7.7. Yn ogystal, pan fo lleoliad yn dymuno dangos darllediad byw o gêm bêl-droed, ni fyddai problem, ond byddai dangos cynnwys o'r fath wedi'i recordio ymlaen llaw – hyd yn oed ychydig funudau yn ddiweddarach – yn cael ei ddosbarthu fel gweithgarwch trwyddedadwy.

7.8. Heblaw am y problemau ymarferol hyn gyda'r ddeddfwriaeth fel y mae, rydym wedi ystyried y manteision posibl i gymdeithasau ffilm ac i brosiectau ffilm cymunedol hefyd o gael gwared ar yr angen i sicrhau trwydded – gan waredu costau a biwrocratiaeth. Byddem yn ddiolchgar i gael eich safbwyntiau am yr agwedd hon yn y cwestiynau isod.

**<u>Ein cynnig</u>**

7.9. **Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig y dylid tynnu “dangos ffilmiau” o'r diffiniad “adloniant wedi'i reoleiddio” yn Atodlen Un Deddf Trwyddedu 2003 ar gyfer digwyddiadau y mae eu cynulleidfaoedd yn cynnwys llai na 5,000 o bobl. <u>Ond cyn gwneud hynny, byddem yn sicrhau y byddai'r rhagofalon ynghylch dosbarthiadau oedran yn cael eu cadw.</u>**

7.10. Er mwyn gwneud hyn, byddem yn defnyddio deddfwriaeth sylfaenol i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol cyn tynnu'r gweithgarwch allan o Ddeddf Trwyddedu 2003, er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw fylchau o ran gweithgarwch diogelu plant. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm dros darfu ar y trefniant lle gall awdurdodau lleol wneud penderfyniadau lleol ynghylch dosbarthiadau, ac rydym yn gallu gweld y manteision ymarferol o wneud hynny.

**Hysbysebu mewn sinemâu**

7.11. Caiff ymgynghoriad ar wahân ei lansio yn y dyfodol agos a fydd yn ystyried a oes angen parhaus am weithgarwch rheoleiddio gan BBFC a chyd reoleiddio o fewn y diwydiant ar gyfer hysbysebion sinema a ddangosir mewn awditoria. **Nid yw hwn yn fater a ystyrir yn yr ymgynghoriad hwn.**

**Dangos Ffilmiau: Cwestiynau**

**C32: A ydych yn cytuno gyda barn y Llywodraeth na ddylai dynnu dangos ffilmiau allan o restr y gweithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio, oni bai bod system briodol ynghylch dosbarthiadau oedran yn parhau i fod mewn grym?**

**C33: A oes gennych unrhyw safbwyntiau ynghylch sut y gallai system ddosbarthu weithio yn absenoldeb amod gorfodol mewn trwyddedau?**

**C34: Os na fyddai modd i'r Llywodraeth greu'r sefyllfa a amlinellir yn y cynnig ac a nodir uchod (er enghraifft, o ganlyniad i'r amser Seneddol a fyddai ar gael), a fyddai unrhyw newidiadau i ddiffiniad ffilm yn gallu bod o ddefnydd er mwyn cael gwared ar unrhyw ganlyniadau anfwriadol, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y ddogfen hon – megis dangos DVDs plant mewn meithrinfeydd cyn ysgol, neu er mwyn sicrhau sefyllfa fwy cyfartal mewn perthynas â darllediadau byw?**

**C35: A oes unrhyw faterion eraill y dylid eu hystyried mewn perthynas â dadreoleiddio gweithgarwch dangos ffilmiau o ofynion trwyddedu?**

# Pennod 8: Chwaraeon dan do

## Cyflwyniad

8. Caiff chwaraeon dan do a gynhelir gerbron cynulleidfa fyw eu rheoleiddio gan Ddeddf Trwyddedu 2003 hefyd, yn wahanol i chwaraeon yn yr awyr agored (heb gynnwys Paffio a Reslo). Mae'n aneglur pam y dylai chwaraeon dan do fod yn rhwym i'r rheoleiddio ychwanegol hwn. Mae chwaraeon a gynhelir mewn lleoliadau yn yr awyr agored, gan gynnwys y rhai y mae modd i'w toeon symud, yn cael eu rheoleiddio gan gyfundrefn wahanol, ac nid oes angen iddynt sicrhau trwydded dan Ddeddf 2003.

8.1 Caiff chwaraeon dan do ei ddiffinio fel: digwyddiad chwaraeon a gynhelir y tu mewn i adeilad yn gyfan gwbl, ac o flaen gwylwyr. Mae chwaraeon yn cynnwys unrhyw gêm lle gwelir mai medr corfforol yw'r ffactor pennaf, ynghyd ag unrhyw fath o adloniant corfforol a gyflawnir at ddibenion cystadlu neu arddangos hefyd. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau fel gymnasteg, pêl-rwyd, hoci iâ a nofio, yn ogystal ag arddangosiadau acrobatig mewn syrcas neu, pan geir cynulleidfa, dartiau a snwcer.

### Chwaraeon yn yr awyr agored

8.2 Wrth gwrs, pêl-droed yw un o'r chwaraeon gwylio allweddol yng Nghymru a Lloegr ac yn y gorffennol, mae wedi dioddef problemau wrth geisio rheoli tyrfaoedd. Caiff pêl-droed ei reoleiddio gan Ddeddf Diogelwch Meysydd Chwarae 1975, a addaswyd gan Orchymyn Diogelwch Meysydd Chwarae (Cynnwys Gwylwyr) 1996, sy'n defnyddio trothwy o 5,000 o wylwyr cyn y bydd angen gweithredu dynodiadau penodol ar gyfer meysydd Pêl-droed y Gynghrair neu'r Uwch Gynghrair. Bydd cyfyngiad uwch o 10,000 yn berthnasol i feysydd chwaraeon eraill.

### Chwaraeon dan do

8.3 Mae'r Llywodraeth o'r farn nad oes modd cyfiawnhau'r gwahanol ddulliau gweithredu ar gyfer chwaraeon dan do a chwaraeon yn yr awyr agored, ac y dylid sicrhau bod chwaraeon dan do yn cyd-fynd yn fwy gyda'r trefniadau ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yn yr awyr agored.

8.4 Felly, mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ynghylch tynnu chwaraeon da do allan, ar gyfer lleoliadau lle mae nifer y gwylwyr yn llai na 5,000. Byddai dadreoleiddio chwaraeon dan do lle mae nifer y gwylwyr yn is na 5,000 yn golygu y byddai chwaraeon megis snwcer, gymnasteg a nofio yn gyfartal â phêl-droed, y mae'n aml yn cael ei ystyried fel gweithgarwch sy'n peri mwy o risg o ganlyniad i ddigwyddiadau anhrefn cyhoeddus.

## Chwaraeon Dan Do: Cwestiynau

**C36: A oes unrhyw faterion ynghylch diogelu'r cyhoedd y maent yn ymwneud yn benodol gyda dadreoleiddio chwaraeon dan do, nad ydynt yn cael eu hystyried ym mhennod 3 yr ymgynghoriad hwn? Os felly, amlinellwch natur benodol y math o chwaraeon a'r risg dan sylw, ynghyd â'r graddau y byddai modd i ymyriadau eraill fynd i'r afael gyda'r risgiau hynny.**

**C37: A oes unrhyw faterion eraill y dylid eu hystyried mewn perthynas â dadreoleiddio chwaraeon dan do o ofynion trwyddedu?**

# Pennod 9: Paffio a Reslo

## Cyflwyniad

9. Caiff dangosiadau cyhoeddus paffio a reslo a digwyddiadau o natur debyg eu dosbarthu fel adloniant wedi'i reoleiddio dan Atodlen Un Deddf Trwyddedu 2003.

9.1 Yn hanesyddol, mae paffio a reslo wedi bod yn rhwym i reolaethau trwyddedu er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i wylwyr o ran rheoli tyrfaoedd ac agweddau iechyd a diogelwch penodol y maent yn ymwneud â'r gweithgarwch corfforol a ddangosir. Yn ogystal, mae'r gofynion trwyddedu wedi darparu rhagofalon ychwanegol i'r sawl sy'n cymryd rhan.

9.2 **Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig y dylai arddangosiadau paffio, a digwyddiadau o natur debyg, barhau i fod yn ddigwyddiadau trwyddedadwy yn gyffredinol.** Fodd bynnag, byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch a ddylai digwyddiadau paffio a reslo a drefnir gan gyrff llywodraethu'r chwaraeon dan sylw, y maent yn cael eu cydnabod gan y Cyngor Chwaraeon, orfod parhau i sicrhau trwyddedau dan Ddeddf 2003. Yn ogystal, byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch a ddylid mireinio'r diffiniad o baffio a reslo er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys, er enghraifft, crefft ymladd ac ymladd mewn cawell.

**Paffio a Reslo, a Digwyddiadau o Natur Debyg: Cwestiynau**

**C38: A ydych yn cytuno gyda'n cynnig y dylai paffio a reslo barhau i gael eu hystyried fel “adloniant wedi'i reoleiddio”, gan olygu bod angen sicrhau trwydded gan awdurdod trwyddedu lleol ar eu cyfer, fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd?**

**C39: Yn eich barn chi, a cheir achos dros ddadreoleiddio gornestau paffio neu adloniant reslo y maent yn cael eu llywodraethu gan gorff llywodraethu chwaraeon cydnabyddedig? Os felly, rhestrwch yr achosion y dylid eu hystyried yn eich barn chi.**

**C40. Yn eich barn chi, a ddylid ymestyn gofynion trwyddedu mewn ffordd benodol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys perfformiadau cyhoeddus neu arddangosiadau unrhyw ddigwyddiadau eraill o natur debyg, megis crefft ymladd ac ymladd mewn cawell? Os felly, amlinellwch y risgiau sy'n gysylltiedig gyda'r digwyddiadau hyn ac esboniwch pam nad oes modd delio gyda'r rhain trwy gyfrwng ymyriadau eraill.**

# Pennod 10: Cerddoriaeth wedi'i Recordio a Chyfleusterau Adloniant

## Cefndir: cerddoriaeth wedi'i recordio

10. Mae chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio i gynulleidfa yn drwyddedadwy dan Ddeddf Trwyddedu 2003, lle mae cerddoriaeth yn fwy nag elfen atodol yn unig i weithgarwch arall nad yw, ynddo'i hun, yn adloniant wedi'i reoleiddio. Er enghraifft, nid yw'n debygol yr ystyrir cerddoriaeth wedi'i recordio sy'n cael ei chwarae mewn cyntedd gwesty neu siop fel prif reswm dros fynychu'r lleoliad hwnnw, ac ni fydd angen sicrhau trwydded ar ei chyfer – ond mae achlysur lle bydd *DJ* enwog yn perfformio set yn debygol o fod yn drwyddedadwy ar hyn o bryd, yn unol â'r pedwar amcan trwyddedu yn Neddf Trwyddedu 2003.

10.1 Nid ydym yn gweld unrhyw reswm dros yr angen i drwyddedu cerddoriaeth wedi'i recordio. Os dylid dadreoleiddio cerddoriaeth fyw, fel y mae'n hymgynghoriad yn cynnig, teimlwn y dylai'r un egwyddorion fod yn berthnasol i gerddoriaeth wedi'i recordio, gyda'r un rheolaethau a sancsiynau ar gael er mwyn sicrhau bod pobl yn arddel arfer da.

10.2 Sylwer nad yw hwn yr un fath â gofyniad i dalu'r Gymdeithas Hawliau Perfformio neu sefydliad tebyg er mwyn defnyddio hawlfraint ddeallusol eu hartistiaid – yn syml, mae'r cynnig yn ymwneud gyda dadreoleiddio o gyfundrefn drwyddedu er mwyn canlyn pedwar amcan trwyddedu Deddf Trwyddedu 2003.

## Ein cynnig

10.3 **Rydym yn cynnig y dylid cael gwared ar yr angen i sicrhau trwydded arbennig er mwyn chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio i gynulleidfaoedd nad ydynt yn cynnwys dros 5,000 o bobl.** Yn achos safleoedd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol, teimlwn fod y cynnig hwn yn synhwyrol iawn. Mae'r posibilrwydd y bydd trwydded yn cael ei hadolygu, sy'n gallu arwain at derfynu trwydded alcohol, dirwy drom neu ddedfryd o garchar am chwe mis hyd yn oed i ddeiliad y drwydded, yn cynnig rheswm tu hwnt o gryf pam y dylai safleoedd trwyddedig gydymffurfio.

10.4 Pan fydd cerddoriaeth wedi'i recordio yn cael ei chwarae mewn sefyllfaoedd eraill (megis disgo mewn neuadd bentref heb drwydded alcohol), mae trefniadau rheoli lleol yn debygol o gynnig datrysiad synnwyr cyffredin i unrhyw broblemau posibl, ynghyd â'r trefniadau diogelu dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Er hyn, rydym yn croesawu safbwyntiau ar y mater isod.

10.5 Rydym wedi cael cyflwyniadau ynghylch “partïon gwyllt” ac a fyddai'r cynnig hwn yn creu unrhyw fylchau yn y gyfraith mewn perthynas â phartïon gwyllt anghyfreithlon, ac unwaith eto, rydym yn gofyn y cwestiynau isod er mwyn sicrhau nad yw'r cynigion hyn yn creu unrhyw fylchau yn y gyfraith.

## Cyfleusterau adloniant

10.6 Mae diffiniad "cyfleusterau adloniant" yn Neddf Trwyddedu 2003 wedi bod yn fater anodd.

10.7 Caiff cyfleusterau adloniant eu diffinio yn Neddf Trwyddedu 2003 fel a ganlyn:

mae "cyfleusterau adloniant" yn golygu cyfleusterau er mwyn galluogi unigolion i gymryd rhan mewn adloniant y mae'r disgrifiad ohono yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) at ddiben, neu at ddibenion sy'n cynnwys diben, cael eu diddanu.

(2)Mae'r disgrifiadau adloniant fel a ganlyn—
(a) creu cerddoriaeth,
(b) dawnsio,
(c) adloniant y mae ei ddisgrifiad yn debyg i'r hyn sy'n perthyn i baragraff (a) neu (b).

10.8 Bwriad yr egwyddor o "gyfleusterau adloniant" yn Neddf Trwyddedu 2003 oedd sicrhau, yn ogystal â sicrhau bod y gweithgareddau a ddosbarthir fel "adloniant wedi'i reoleiddio" yn cael eu hystyried mewn ffordd gywir gan awdurdodau trwyddedu, bod unrhyw offer allweddol a'i effeithiau yn cael ei adolygu yn yr un modd.

10.9 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig y dylid cael gwared ar yr angen i ystyried cyfleusterau adloniant ar gyfer unrhyw ddigwyddiad posibl. Byddai hyn yn cynnwys *karaoke,* offerynnau cerddorol, lloriau dawnsio ac offer arall sy'n angenrheidiol er mwyn cynorthwyo'r broses o greu cerddoriaeth neu ddawns. Byddem yn ddiolchgar am sylwadau ynghylch y cynnig hwn.

### Cerddoriaeth wedi'i Recordio a Chyfleusterau Adloniant: Cwestiynau

**C41: Gan ddefnyddio'r trefniadau diogelu a amlinellir ym Mhennod 3, a ddylid dadreoleiddio cerddoriaeth wedi'i recordio ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n cynnwys llai na 5,000 o bobl yn eich barn chi? Os na, nodwch y rhesymau dros hyn a thystiolaeth ynghylch y niwed.**

**C42: Os ydych o'r farn y dylai gwahanol gyfyngiad gael ei weithredu o ran maint y gynulleidfa, nodwch y cyfyngiad a fyddai'n addas yn eich barn chi a'r rhesymau dros nodi mai hwn yw'r cyfyngiad cywir.**

**C43: A oes unrhyw amgylchiadau yn codi lle y dylai cerddoriaeth wedi'i recordio orfod sicrhau trwydded o hyd? Os oes, nodwch y manylion penodol a'r niwed y gallai cael gwared ar y gofyniad hwn ei achosi?**

**C44: A oes unrhyw fanteision neu broblemau eraill yn gysylltiedig mewn ffordd benodol gyda'r cynnig i ddadreoleiddio cerddoriaeth wedi'i recordio?**

**C45: A oes unrhyw achosion penodol lle y mae angen i Gyfleusterau Adloniant gael eu rheoleiddio gan y Ddeddf Drwyddedu, yn yr un modd â'r gyfundrefn drwyddedu bresennol? Os oes, a fyddech gystal â darparu'r manylion.**

# Pennod 11: Cael gwared ar unrhyw ganlyniadau anfwriadol: cyfreithiau eglur ac arweiniad eglur

## Cyflwyniad

11. Ceir cryn dystiolaeth bod awdurdodau trwyddedu a threfnwyr digwyddiadau yn ei chael hi'n anodd iawn dehongli rhannau o Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae Deddf 2003 yn ddarn o ddeddfwriaeth swmpus a hynod o gymhleth, ac mae hyn wedi arwain at wahanol ddehongliadau ar draws awdurdodau trwyddedu. Yn y bennod hon, byddem yn ddiolchgar am safbwyntiau ynghylch y mater hwn ac ynghylch y ffordd orau o sicrhau mwy o eglurder ym maes trwyddedu adloniant, er gwaethaf y cynigion i dynnu allan y rhan fwyaf o adloniant wedi'i reoleiddio a nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon.

### Cyfreithiau eglur ac arweiniad eglur

11.1 Pan fo modd cael gwared ar unrhyw faterion sy'n peri problemau ym maes adloniant wedi'i reoleiddio, hoffem fanteisio ar y cyfle i wneud hynny trwy gyfrwng yr ymgynghoriad hwn.

**Canlyniadau anfwriadol: Cwestiynau**

**C46: A oes unrhyw ddiffiniadau o fewn Atodlen Un y Ddeddf y maent yn arbennig o anodd eu dehongli, neu y maent yn aneglur fel arall, yr hoffech eu gweld yn cael eu newid neu eu hegluro?**

**C47: Mae paragraff 1.5 yn amlinellu rhai o'r cyflwyniadau y mae DCMS wedi'u cael ynghylch problemau gyda'r agweddau adloniant wedi'i reoleiddio o fewn Deddf Trwyddedu 2003. A ydych chi yn ymwybodol o unrhyw faterion eraill y mae angen i ni eu hystyried?**

### Adloniant oedolion

11.2 **Nid ydym yn gweld unrhyw reswm dros ddadreoleiddio adloniant oedolion ac nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau am y mater hwn.**

11.3 Er na chaiff adloniant oedolion ei nodi yn Atodlen Un Deddf Trwyddedu 2003 fel gweithgarwch trwyddedadwy, mae'r Ddeddf yn cyflawni rôl ym mhroses bresennol y rheolaethau.

11.4 Roedd Deddf Plismona a Throsedd 2009 yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 er mwyn darparu ar gyfer rheoleiddio “lleoliadau adloniant rhywiol”. O ganlyniad, bydd gofyn i leoliadau sy'n cynnal perfformiadau adloniant oedolion yn **rheolaidd**, megis dawnsio glin, dawnsio bwrdd neu sioeau stripio, sicrhau caniatâd ar wahân gan yr awdurdod lleol.

11.5 Mae Deddf Trwyddedu 2003, fodd bynnag, yn cyflawni rôl wrth reoli perfformiadau o'r natur hon a gynhelir **o bryd i'w gilydd.** Yn benodol, mae lleoliad yn lleoliad adloniant rhywiol lle mae perfformiadau byw neu arddangosiadau noethni byw yn rhai o'r fath natur, a chan anwybyddu elw ariannol, fel ei bod yn rhesymol cymryd eu bod yn cael eu darparu er mwyn cyffroi unrhyw aelod o'r gynulleidfa mewn ffordd rywiol (boed hynny ar lafar neu thrwy gyfrwng ffyrdd eraill) yn gyfan gwbl neu'n bennaf.

11.6 Fodd bynnag, ni fydd hyn yn berthnasol pan na fydd y lleoliadau wedi cael eu defnyddio ar fwy nag 11 achlysur ar gyfer gweithgareddau o'r fath dros y 12 mis blaenorol. Yn yr achosion hynny, caiff y gweithgarwch ei reoleiddio dan Ddeddf 2003 fel perfformiad dawns. Wrth ddadreoleiddio dawns, byddai'r Llywodraeth yn sicrhau na fyddai unrhyw newid yn digwydd o ran y ffordd y caiff adloniant rhyw ei reoleiddio.

**Adloniant Oedolion: Cwestiwn**

**C48: A ydych yn cytuno gyda'n cynnig na ddylai dadreoleiddio dawns ymestyn i adloniant rhyw? A fyddech gystal â darparu manylion.**

# Atodiad A: Rhestr gryno o'r cwestiynau

## Effeithiau'r Cynnig: Cwestiynau

**C1: A ydych yn cytuno y bydd y cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn arwain at fwy o berfformiadau, ac y byddent er budd mudiadau gwirfoddol a chymunedol? Os ydych, a fyddech gystal ag amcangyfrif nifer ychwanegol y digwyddiadau y byddech chi neu'ch sefydliad yn eu cynnal neu y byddai eraill yn eu trefnu yn eich barn chi?**

**C2: Os ydych yn ateb fel unigolyn, a fyddai'r cynnig hwn, yn eich barn chi, yn eich helpu i gymryd rhan mewn neu i fynychu perfformiadau gwirfoddol neu gymunedol ychwanegol?**

**C3: A ydych yn cytuno gyda'n hamcangyfrifon ynghylch yr arbedion y byddai modd i fusnesau, mudiadau gwirfoddol a mudiadau elusennol eu sicrhau fel yr amlinellwyd yn yr asesiad effaith? Os nad ydych yn cytuno, amlinellwch y meysydd lle y gwelir gwahaniaeth ac unrhyw ffigurau y dylid eu hystyried yn eich barn chi (gweler paragraff 57 yr Asesiad Effaith).**

**C4: A ydych yn cytuno gyda'n hamcangyfrifon ynghylch y costau a'r arbedion posibl i awdurdodau lleol, yr heddlu ac eraill, fel yr amlinellwyd yn yr asesiad effaith? Os nad ydych yn cytuno, amlinellwch y meysydd lle y gwelir gwahaniaeth ac unrhyw ffigurau y dylid eu hystyried yn eich barn chi.**

**C5: A fyddech yn disgwyl gweld unrhyw newidiadau o ran nifer y cwynion a wneir ynghylch sŵn o ganlyniad i'r cynigion hyn? Os byddech, a fyddech gystal â chynnig tystiolaeth a rhesymeg, gan ystyried parhad rheolaethau awdurdodau trwyddedu ar gyfer safleoedd y maent yn meddu ar drwydded alcohol ac ar gyfer lluniaeth gyda'r hwyr**

**C6: Mae'r Asesiad Effaith ar gyfer y cynigion hyn yn cynnwys nifer o dybiaethau ynghylch nifer y digwyddiadau ychwanegol, a'r lefelau mynychu tebygol a fyddai'n codi os byddai'r cynigion ynghylch dadreoleiddio yn cael eu gweithredu. Os ydych yn anghytuno gyda'r tybiaethau, yn unol â pharagraffau 79 ac 80 yn yr Asesiad Effaith, a fyddech gystal â darparu amcangyfrifon o'r hyn y dylai'r ystodau cywir fod yn eich barn chi, gan esbonio sut yr amcangyfrifwyd y ffigurau hynny.**

**C7: A oes modd i chi ddarparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol er mwyn cyfrannu at yr Asesiad Effaith, yn enwedig ynghylch yr effeithiau na phennwyd gwerth ariannol ar eu cyfer?**

**C8: A oes unrhyw effeithiau nad ydynt wedi cael eu nodi yn yr Asesiad Effaith?**

**C9: A fyddai unrhyw rai o'r dewisiadau gwahanol a ystyriwyd yn yr ymgynghoriad hwn yn cael goblygiadau amlwg o ran y costau, y beichiau a'r arbedion a nodir yn yr asesiad effaith? Os felly, a fyddech gystal â darparu ffigurau a manylion y dystiolaeth y seiliwyd eich tybiaethau arnynt.**

**C10: A ydych yn cytuno y dylai fod modd i safleoedd y maent yn parhau i feddu ar drwydded ar ôl y diwygiadau, allu cynnal gweithgareddau adloniant yr oeddent yn cael eu rheoleiddio'n flaenorol heb yr angen i fynd trwy broses Amrywiad Llawn neu Fân Amrywiad?**

## Rôl Rheolaethau Trwyddedu: Cwestiynau

**C11: A ydych yn cytuno y dylai digwyddiadau ar gyfer llai na 5,000 o bobl gael eu dadreoleiddio ar draws yr holl weithgareddau a restrir yn Atodlen Un Deddf Trwyddedu 2003?**

**C12: Os ydych o'r farn y dylai fod yna gyfyngiad gwahanol – naill ai dan 5,000 neu dros 5,000, beth ddylai'r cyfyngiad hwn fod yn eich barn chi? Esboniwch eich rhesymau dros eich dymuniad i weld cyfyngiad gwahanol yn cael ei weithredu, a pha dystiolaeth sy'n cefnogi'ch safbwynt.**

**C13: Yn eich barn chi, a ddylai fod cyfyngiadau gwahanol o ran maint y gynulleidfa ar gyfer gwahanol weithgareddau a restrir yn Atodiad Un? Os felly, a fyddech gystal ag amlinellu pam y dylai hyn fod. Yn ogystal, a fyddech gystal ag awgrymu pa gyfyngiadau ddylai fod yn berthnasol i'r gweithgarwch penodol dan sylw yn eich barn chi.**

**C14: Yn eich barn chi, a fyddai safle na fyddai'n meddu ar drwydded mwyach, o ganlyniad i'r cam o ddadreoleiddio adloniant, yn peri risg sylweddol i unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu gwreiddiol? Os felly, darparwch fanylion am y sefyllfa dan sylw.**

**C15: Yn eich barn chi, a ddylid trin digwyddiadau yn yr awyr agored mewn ffordd wahanol i'r rhai a gynhelir dan do, o ran maint y gynulleidfa? Os felly, a fyddech gystal ag esbonio pam, a'r hyn y byddai hyn yn ei olygu mewn gwirionedd.**

**C16: A ydych o'r farn na ddylai digwyddiadau a gynhelir ar ôl amser penodol gael eu dadreoleiddio? Os felly, a fyddech gystal ag esbonio'r amser a fyddai'n dorbwynt priodol yn eich barn chi, a pham y dylai hyn gael ei weithredu.**

**C17: A ddylid gweithredu gwahanol dorbwyntiau o ran yr amser ar gyfer gwahanol fathau o adloniant a/neu ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yn yr awyr agored a digwyddiadau dan do? Os felly, esboniwch pam.**

**C18: A cheir dulliau gweithredu amgen i gyfundrefn drwyddedu a fyddai'n gallu helpu i ddelio gydag unrhyw risgiau posibl ynghylch amseriad digwyddiadau?**

**C19: Yn eich barn chi, a fyddai cod ymarfer yn ffordd dda o leddfu risgiau posibl yn ymwneud â sŵn? Os felly, beth ddylai cod o'r fath gynnwys yn eich barn chi, a sut ddylai weithredu?**

**C20: A ydych yn cytuno bod cyfreithiau sy'n ymwneud gyda materion megis sŵn, diogelwch y cyhoedd, diogelwch tân ac anhrefn, yn gallu delio gyda risgiau posibl yn ystod digwyddiadau adloniant wedi'u dadreoleiddio? Os na, sut fyddai modd rheoli'r risgiau hynny yn absenoldeb cyfundrefn drwyddedu?**

**C21: Sut allai amseriad / hyd digwyddiadau newid o ganlyniad i'r cynigion hyn yn eich barn chi? A fyddech gystal â darparu tystiolaeth a rhesymeg dros eich safbwynt.**

**C22: A oes angen ystyried unrhyw agweddau eraill wrth ystyried dadreoleiddio Atodlen Un o ran pedwar amcan trwyddedu Deddf Trwyddedu 2003?**

## Perfformiadau Cerddoriaeth Fyw: Cwestiynau

**C23: A oes unrhyw faterion ynghylch diogelu'r cyhoedd, y maent yn ymwneud yn benodol gyda dadreoleiddio perfformiadau cerddoriaeth fyw, nad ydynt yn cael eu hystyried ym mhennod 3 yr ymgynghoriad hwn? Os felly, sut fyddai modd rhoi sylw iddynt mewn ffordd gymesur ac wedi'i thargedu?**

**C24: Yn eich barn chi, a ddylai cerddoriaeth lle na chaiff y sain ei chwyddo gael ei dadreoleiddio'n llawn, heb osod unrhyw gyfyngiadau o ran y niferoedd ac amser y dydd/nos? Os na, esboniwch pam, gan ddarparu unrhyw dystiolaeth ynghylch y niwed.**

**C25: A oes unrhyw fanteision neu broblemau eraill yn gysylltiedig gyda'r cynnig i ddadreoleiddio cerddoriaeth fyw yn benodol?**

## Perfformiadau Drama: Cwestiynau

**C26: A oes unrhyw faterion ynghylch diogelu'r cyhoedd y maent yn ymwneud yn benodol gyda dadreoleiddio perfformiadau drama, nad ydynt yn cael eu hystyried ym mhennod 3 yr ymgynghoriad hwn? Os felly, sut fyddai modd rhoi sylw iddynt mewn ffordd gymesur ac wedi'i thargedu?**

**C27: A oes unrhyw ystyriaethau iechyd a diogelwch y maent yn rhai unigryw ar gyfer theatr yn yr awyr agored ac mewn mannau penodol, y maent yn wahanol i theatr dan do, ac y mae angen eu hystyried?**

**C28: Yn aml, bydd awdurdodau trwyddedu yn cynnwys amodau ynghylch pyrotechneg ac amodau tebyg ynghylch trin HAZMAT yn eu trwyddedau. Ai dim ond trwy'r gyfundrefn drwyddedu y mae modd delio gyda'r math hwn o gyfyngiad?**

**C29: A oes unrhyw fanteision neu broblemau eraill yn gysylltiedig gyda'r cynnig i ddadreoleiddio theatr yn benodol?**

## Perfformiadau Dawns: Cwestiynau

**C30: A oes unrhyw faterion ynghylch diogelu'r cyhoedd y maent yn ymwneud yn benodol gyda dadreoleiddio perfformiadau dawns, nad ydynt yn cael eu hystyried ym mhennod 3 yr ymgynghoriad hwn? Os felly, sut fyddai modd rhoi sylw iddynt mewn ffordd gymesur ac wedi'i thargedu?**

**C31: A oes unrhyw fanteision neu broblemau eraill yn gysylltiedig gyda'r cynnig i ddadreoleiddio perfformiadau dawns yn benodol?**

## Dangos Ffilmiau: Cwestiynau

**C32: A ydych yn cytuno gyda barn y Llywodraeth na ddylai dynnu dangos ffilmiau allan o restr y gweithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio, oni bai bod system briodol ynghylch dosbarthiadau oedran yn parhau i fod mewn grym?**

**C33: A oes gennych unrhyw safbwyntiau ynghylch sut y gallai system ddosbarthu weithio yn absenoldeb amod gorfodol mewn trwyddedau?**

**C34: Os na fyddai modd i'r Llywodraeth greu'r sefyllfa a amlinellir yn y cynnig ac a nodir uchod (er enghraifft, o ganlyniad i'r amser Seneddol a fyddai ar gael), a fyddai unrhyw newidiadau i ddiffiniad ffilm yn gallu bod o ddefnydd er mwyn cael gwared ar unrhyw ganlyniadau anfwriadol, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y ddogfen hon – megis dangos DVDs plant mewn meithrinfeydd cyn ysgol, neu er mwyn sicrhau sefyllfa fwy cyfartal mewn perthynas â darllediadau byw?**

**C35: A oes unrhyw faterion eraill y dylid eu hystyried mewn perthynas â dadreoleiddio gweithgarwch dangos ffilmiau o ofynion trwyddedu?**

## Chwaraeon Dan Do: Cwestiynau

**C36: A oes unrhyw faterion ynghylch diogelu'r cyhoedd y maent yn ymwneud yn benodol gyda dadreoleiddio chwaraeon dan do, nad ydynt yn cael eu hystyried ym mhennod 3 yr ymgynghoriad hwn? Os felly, amlinellwch natur benodol y math o chwaraeon a'r risg dan sylw, ynghyd â'r graddau y byddai modd i ymyriadau eraill fynd i'r afael gyda'r risgiau hynny.**

**C37: A oes unrhyw faterion eraill y dylid eu hystyried mewn perthynas â dadreoleiddio chwaraeon dan do o ofynion trwyddedu?**

## Paffio a Reslo, a Digwyddiadau o Natur Debyg: Cwestiynau

**C38: A ydych yn cytuno gyda'n cynnig y dylai paffio a reslo barhau i gael eu hystyried fel "adloniant wedi'i reoleiddio", gan olygu bod angen sicrhau trwydded gan awdurdod trwyddedu lleol ar eu cyfer, fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd?**

**C39: Yn eich barn chi, a cheir achos dros ddadreoleiddio gornestau paffio neu adloniant reslo y maent yn cael eu llywodraethu gan gorff llywodraethu chwaraeon cydnabyddedig? Os felly, rhestrwch yr achosion y dylid eu hystyried yn eich barn chi.**

**C40. Yn eich barn chi, a ddylid ymestyn gofynion trwyddedu mewn ffordd benodol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys perfformiadau cyhoeddus neu arddangosiadau unrhyw ddigwyddiadau eraill o natur debyg, megis crefft ymladd ac ymladd mewn cawell? Os felly, amlinellwch y risgiau sy'n gysylltiedig gyda'r digwyddiadau hyn ac esboniwch pam nad oes modd delio gyda'r rhain trwy gyfrwng ymyriadau eraill.**

## Cerddoriaeth wedi'i Recordio a Chyfleusterau Adloniant: Cwestiynau

**C41: Gan ddefnyddio'r trefniadau diogelu a amlinellir ym Mhennod 3, a ddylid dadreoleiddio cerddoriaeth wedi'i recordio ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n cynnwys llai na 5,000 o bobl yn eich barn chi? Os na, nodwch y rhesymau dros hyn a thystiolaeth ynghylch y niwed.**

**C42: Os ydych o'r farn y dylai gwahanol gyfyngiad gael ei weithredu o ran maint y gynulleidfa, nodwch y cyfyngiad a fyddai'n addas yn eich barn chi a'r rhesymau dros nodi mai hwn yw'r cyfyngiad cywir.**

**C43: A oes unrhyw amgylchiadau yn codi lle y dylai cerddoriaeth wedi'i recordio orfod sicrhau trwydded o hyd? Os oes, nodwch y manylion penodol a'r niwed y gallai cael gwared ar y gofyniad hwn ei achosi?**

**C44: A oes unrhyw fanteision neu broblemau eraill yn gysylltiedig mewn ffordd benodol gyda'r cynnig i ddadreoleiddio cerddoriaeth wedi'i recordio?**

**C45: A oes unrhyw achosion penodol lle y mae angen i Gyfleusterau Adloniant gael eu rheoleiddio gan y Ddeddf Drwyddedu, yn yr un modd â'r gyfundrefn drwyddedu bresennol? Os oes, a fyddech gystal â darparu'r manylion.**

## Canlyniadau anfwriadol: Cwestiynau

**C46: A oes unrhyw ddiffiniadau o fewn Atodlen Un y Ddeddf y maent yn arbennig o anodd eu dehongli, neu y maent yn aneglur fel arall, yr hoffech eu gweld yn cael eu newid neu eu hegluro?**

**C47: Mae paragraff 1.5 yn amlinellu rhai o'r cyflwyniadau y mae DCMS wedi'u cael ynghylch problemau gyda'r agweddau adloniant wedi'i reoleiddio o fewn Deddf Trwyddedu 2003. A ydych chi yn ymwybodol o unrhyw faterion eraill y mae angen i ni eu hystyried?**

## Adloniant Oedolion: Cwestiwn

**C48: A ydych yn cytuno gyda'n cynnig <u>na</u> ddylai dadreoleiddio dawns ymestyn i adloniant rhyw? A fyddech gystal â darparu manylion.**

# Atodiad B: Sut i Ymateb

Mae modd i chi ymateb i'r ymgynghoriad yn y ffyrdd canlynol:

**Ar-lein**
Regulated_entertainment_consultation@culture.gsi.gov.uk

**Trwy'r post**
Mae modd i chi argraffu'r rhestr gryno uchod o'r cwestiynau, gan ysgrifennu'ch ymatebion iddynt. Anfonwch y rhain at:
Nigel Wakelin
Regulated Entertainment Consultation Co-ordinator
Department for Culture, Media and Sport
2-4 Cockspur Street
London
SW1Y 5DH

**Dyddiad cau**
Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **3 Rhagfyr 2011**.

**Ar ôl yr ymgynghoriad**
Byddwn yn cynnwys crynodeb o'r atebion a gafwyd ar wefan DCMS (www.culture.gov.uk) ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ynghyd â dadansoddiad o'r ymatebion. Byddwn yn cyhoeddi ymateb y Llywodraeth maes o law.

**Rhyddid Gwybodaeth**
Mae gofyn i ni ryddhau gwybodaeth er mwyn cydymffurfio gyda Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Ni fyddwn yn caniatáu unrhyw achosion diangen o dorri amodau cyfrinachedd ac ni fyddwn yn mynd yn groes i'n hymrwymiadau dan Ddeddf Diogelu Data 1998, ond sylwer na fyddwn yn trin unrhyw ymwadiad cyfrinachedd y bydd eich system TG yn ei greu mewn ymatebion e-bost fel cais i beidio rhyddhau gwybodaeth.

**Cydymffurfio gyda'r Cod Ymarfer ynghylch Cyfranogi**
Mae'r ymgynghoriad hwn yn cydymffurfio gyda'r Cod.

**Cwynion**
Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori (yn hytrach na sylwadau am y materion hyn y maent yn rhan o'r ymgynghoriad), dylech eu hanfon at:

Complaints Department (Consultations)
Department for Culture, Media and Sport
2-4 Cockspur Street
London
SW1Y 5DH

# Atodiad C: Rhestr o'r Ymgyngoreion

Mae modd i unrhyw un ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r rhestr hon o ymgyngoreion yn dynodi'r sefydliadau hynny y byddwn yn cysylltu â nhw gan awgrymu yr hoffent ymateb efallai.

Cymdeithas yr Asiantau
Action with Communities in Rural England
Alcohol Concern
Cymdeithas Paffio Amatur
Arts Council England
Cyngor Celfyddydau Cymru
Cymdeithas Yswirwyr Prydain
Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu
Cymdeithas Perchnogion Syrcas Prydain
Cymdeithas Trefnwyr Gwyliau (AFO)
Cymdeithas Gwyliau Annibynnol
Cymdeithas Cerddoriaeth Annibynnol (AIM)
Cymdeithas Awdurdodau Mordwyo Mewndirol
Cymdeithas Manwerthwyr Cadwyn Trwyddedig
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau
Cymdeithas Sefydliadau Amaethyddol a Sioeau
BII (Sefydliad Cadw Tafarndai Prydain)
BPI Diwydiant (Cerddoriaeth wedi'i Recordio Prydain)
Cymdeithas Gwyliau Celf Prydain
Cymdeithas Neuaddau Cyngerdd Prydain
Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain
Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC)
Bwrdd Rheoli Paffio Prydain
Sefydliad Ffilm Prydain (BFI)
Cymdeithas Cartrefi a Pharciau Gwyliau Prydain
Cymdeithas Lletygarwch a Bwytai Prydain
Ffederasiwn Morol Prydain
Consortiwm Manwerthu Prydain
Cymdeithas Reslo Prydain
Business in Sport and Leisure
Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn
Carnival Village
Y Comisiwn Elusennau
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
Cymdeithas Prif Swyddogion Tân
Cymdeithas y Plant
Cymdeithas Hysbysebion Sinema
Cymdeithas yr Arddangoswyr Sinema
Fforwm Celfyddyd Syrcas
Y Comisiwn Cymunedau Gwledig

Pwyllgor Cymdeithasau Clybiau Cofrestredig
Community Matters
Dance UK
English Folk Dance and Song Society
English Heritage
Equity
Ffederasiwn Fitelwyr Trwyddedig
Ffederasiwn Fitelwyr Trwyddedig (Cymru)
Ffederasiwn Cymdeithasau Preswylwyr Preifat
Ffederasiwn Busnesau Bach
Cymdeithas y Dosbarthwyr Ffilmiau
Cymdeithas y Swyddogion Tân
Awdurdod Trwyddedu Pêl-droed (FLA)
Sefydliad Dawns Cymunedol
Urdd y Prif Fitelwyr
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)
Cymdeithas Tai Hanesyddol
Rhwydwaith Celfyddyd Stryd Annibynnol
Cyngor Theatr Annibynnol (ITC)
Sefydliad Trwyddedu
International Live Music Conference
Jazz Services
Cymdeithas Clercod yr Ynadon
Cymdeithas Dawnsio Glin
Rhwydwaith Preswylwyr Gweithredol y Ddeddf Drwyddedu
Rheoleiddio Llywodraeth Leol (LGR)
Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA)
Cymdeithas yr Ynadon
Creu Cerddoriaeth (Ffederasiwn Cymdeithasol Cymdeithasau Cerdd)
Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau
Heddlu Metropolitan Llundain
Undeb y Cerddorion
Cymdeithas Genedlaethol yr Arenâu
Cymdeithas Genedlaethol y Penaethiaid
Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol
Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Celfyddyd Llywodraeth Leol
Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau
Conffederasiwn Cenedlaethol Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon
Cymdeithas Genedlaethol Adwerthu a Marchnadoedd Ffermwyr
Cymdeithas Genedlaethol y Llywodraethwyr
Cymdeithas Gwarchod Cymdogaeth Genedlaethol
Cymdeithas Operatig a Dramatig Genedlaethol
Sefydliad Cenedlaethol Cymdeithasau Preswylwyr
Fforwm Teithio Gwledig Cenedlaethol
Fforwm Neuaddau Pentref Cenedlaethol
Noctis
Cymdeithas er Atal Sŵn
Open all Hours
Cynghrair y Perfformwyr Seneddol
Cymdeithas Llongau Teithwyr
Deddfau Trwyddedu Paterson

Ffederasiwn yr Heddlu
Cymdeithas Uwch Arolygwyr yr Heddlu
Cymdeithas Gwasanaethau Cynhyrchu
Rotari Rhyngwladol Prydain ac Iwerddon
Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
Cymdeithas Theatrau Llundain / Cymdeithas Rheolaeth Theatrig (SLT/TMA)
Sport England
Cynghrair Chwaraeon a Hamddena
Ymddiriedolaeth y Theatrau
Tourism for All
Sefydliad Safonau Masnach
Canolfan Celfyddyd Carnifal y DU
Grŵp Cerddoriaeth Fyw y DU
UK Music
UK Sport
Cyngor Ffilmiau y Deyrnas Unedig
Rhwydwaith Celfyddydau Gwirfoddol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

department for
culture, media
and sport

2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
**www.culture.gov.uk**